



Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

2022-23

Cynnwys

Rhagair gan yr Athro Simon Gaskell, Cadeirydd Bwrdd QAA	1
Rhagair gan Vicki Stott, Prif Weithredwr QAA	2
Yr Adroddiad Strategol	4
Strategaeth newydd QAA	4
Pwrpas QAA	4
Adolygiad allanol annibynnol o QAA.....	4
Yr hyn a wnawn	5
Y gwersi a ddysgwyd	13
Edrych ymlaen	13
Yr adolygiad ariannol	15
Y canlyniadau	15
Yr incwm	15
Y gwariant	15
Y fantolen.....	16
Y Polisi cronfeydd wrth gefn	16
Rheoli'r trysorlys.....	17
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	19
Strwythur, trefn lywodraethol a threfn reoli.....	19
Llywodraethu.....	19
Y strwythur cyfundrefnol	25
Cyfeiriadau a manylion gweinyddol	27
Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau ac Ymddiriedolwyr yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch	30
Ein barn.....	30
Sail ein barn.....	30
Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol.....	30
Gwybodaeth arall.....	30
Datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol (yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant cyfunol) ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023	34
Y mantolenni ar 31 Gorffennaf 2023.....	35
Y datganiad llif arian ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023.....	36
Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023	37
Rhestr termau	64

Rhagair gan yr Athro Simon Gaskell, Cadeirydd Bwrdd QAA

Mae hon wedi bod yn flwyddyn hynod o bwysig i QAA, mewn cyfnod pan mae addysg uwch yn y newyddion yn gyson. Roedd sector oedd wedi wynebu heriau anghyffredin yn sgil y pandemig COVID-19 mewn sefyllfa erbyn hyn lle'r oedd yn gorfod ailbwysleisio ei bwrpas sylfaenol - a hynny'n rhannol i roi sylwadau beirniadol a gafwyd o rai cyfeiriadau gwleidyddol mewn persbectif, ond hefyd efallai'n fwy arwyddocaol, mewn ymateb i ymddangosiad technolegau newydd ym maes deallusrwydd artifisial. Ar hyn o bryd, ChatGPT yw'r mwyaf amlwg o'r llu rhaglenni newydd sy'n dod â chyfleoedd a bygythiadau fel ei gilydd, ac sy'n codi cwestiynau pwysig ar y cyd am yr hyn y dylai myfyrwyr ei ddysgu, a pham, cyn i lawer ohonynt fynd i mewn i farchnad waith sy'n newid yn radicalaidd.

Cymerodd QAA ei hun y penderfyniad anodd ond egwyddorol i ymadael â'i rôl fel y corff sicrhau ansawdd dynodedig yn Lloegr, er mwyn cadw'r aliniad ag arferion da sy'n cael eu cydnabod ar draws y byd. Daeth hyn â'r gwaith sicrhau ansawdd y mae QAA yn ei wneud ar ran y Swyddfa Myfyrwyr i ben - perthynas sydd, ar adegau, wedi tynnu sylw'n ddi-fudd oddi wrth y gwaith hanfodol y mae'r sector a QAA yn ei wneud i gynnal safonau a sicrhau a gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu. Mae ymadawiad QAA â'r rôl yn gadael yr Asiantaeth mewn tiriogaeth newydd yn Lloegr, lle gall gynnig gwasanaeth gwella ehangach i'w haelodau a lansio gwasanaethau newydd i helpu i ddangos a gwella ansawdd. Yng nghyd-destun y polisïau a'r rheoliadau presennol, mae'n anodd peidio dod i'r casgliad y bydd QAA yn gallu ychwanegu mwy o werth i'r sector yn Lloegr yn y capasiti hwn nag y gallai pan oedd yn gweithredu hefyd fel y corff sicrhau ansawdd dynodedig. Er hynny, mae'n parhau'n fater i edifarhau drosto, fel y mae i lawer o bobl yn y sector, bod y swyddogaethau asesu yn Lloegr wedi colli eu hannibyniaeth oddi wrth y corff rheoleiddio.

Rhywbeth arall sy'n ennyn croeso, a hynny'n amlycach, yw'r symudiad tuag at gael sector addysg drydyddol llawer mwy integredig yng Nghymru a'r Alban, ac yn wir ymhob gwlad o'r DU, wrth i gynnydd barhau tuag at ddiwylliant o ddysgu gydol oes, a bydd sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yn cydweithio'n llawer agosach. Mae'n deg ystyried bod yr Alban yn arwain y ffordd o ran y newidiadau ffurfiol i helpu i wireddu'r weledigaeth hon, ac mae'r estyniad sylweddol i waith QAA yn yr Alban, lle mae'n gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill, yn gyfle hanesyddol i QAA ac hefyd yn anrhydedd sylweddol a chyfrifoldeb dwfn.

Mae strategaeth newydd QAA yn rhoi'r Asiantaeth yn y safle cywir ar gyfer y datblygiadau hyn, ac ar gyfer y twf parhaus mewn gwaith rhyngwladol, sy'n gynyddol bwysig er mwyn cefnogi'r sector yn ei waith o ddarparu addysg draws-wladol o safon uchel a denu myfyrwyr rhyngwladol. O ystyried y sefyllfa strategol gref hon ochr yn ochr â'r mynegiant annibynnol clir o hyder yng ngalluoedd QAA sydd yn i'w gael yn yr adolygiad trwyadl gan ENQA, y rhwydwaith Ewropeaidd o gyrff sicrhau ansawdd, rwy'n credu y gellir gweld yn glir fod QAA yn asiantaeth sy'n mynd o nerth i nerth, yn addasu gyda hyblygedd gwych yn ei wasanaeth i'r sector addysg uwch a'r sector addysg drydyddol ehangach a'u myfyrwyr.

Yn y sefyllfa economaidd heriol bresennol, mae sector addysg uwch y DU yn parhau'n stori lwyddiant hanfodol a hynod. Yr edau euraidd sy'n rhedeg drwy ei lwyddiant hir yw ymrwymiad, ar y cyd ac fel sefydliadau unigol, i gynnal safonau a gwella ansawdd - ymrwymiad sy'n annibynnol i, ond sy'n cyflenwi, ymlyniad â gofynion rheoleiddiol. Mae'r mynegiant mwyaf cadarnhaol hwn o ymreolaeth sefydliadol yn adeiladu ar sylfaen o werthoedd sy'n cynnwys ymroddiad i hybu manteision addysg uwch i'r unigolyn ac i gymdeithas, ac ymroddiad hefyd i ryddid academiaidd y myfyrwyr a'r staff. Heb ymrwymadau o'r fath, byddem yn peryglu enw da'r sector drwy'r byd i gyd a'i werth economaidd enfawr.

Rhagair gan Vicki Stott, Prif Weithredwr QAA

Eleni, mae sector addysg uwch y DU wedi gweld cynnydd cyflym yn yr offer deallusrwydd artifisial cynhyrchiol sydd ar gael i bawb sydd wedi cael effeithiau uniongyrchol a phellgyrhaeddol ar addysg uwch fel y mae'n gyfarwydd i ni. Yng nghyd-destun gweithredu diwydiannol, mae'r berthynas rhwng y cyflogwyr a'r gweithwyr yn dal i fod o dan straen, a gallai boicot marcio ac asesu drwy'r DU gyfan beri risgiau i ansawdd a safonau. Mae'r drafodaeth barhaus yn y sector ynghylch y ffaith bod angen model cyllido sy'n ariannol gynaliadwy yr un mor argyfyngus â rhyngwladol y gweinidogion am 'gyfyngu' ar 'gyrsiau o safon isel', gan daflu'r pwnc i mewn i'r ddarpariaeth brif ffrwd unwaith eto.

Mae newid wedi bod yn thema i QAA ei hun hefyd. Trwy gyhoeddi ein strategaeth newydd eleni, aethom ati i roi'r Asiantaeth mewn sefyllfa sy'n ei galluogi i'w haddasu ei hun i'w rolau sy'n datblygu yng ngwledydd y DU. Yn yr Alban, mae'n bleser gennym fod wedi cael ein comisiynu gan Gyngor Cyllido'r Alban i lunio a gweithredu system newydd o reoli ansawdd addysg drydyddol ar draws addysg bellach ac uwch. Yng Nghymru, mae pasio'r Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil a sefydlu'r Comisiwn newydd perthnasol yn nodi cychwyniad ffocws ar addysg drydyddol ym maes addysg uwch yng Nghymru y mae QAA yno i'w wasanaethu. Yn Lloegr, ers i ni ymadael â'n rôl fel y corff sicrhau ansawdd dynodedig yno ym mis Mawrth, rydym wedi bod mewn gwell sefyllfa i ateb anghenion y sector drwy gynnig gwell rhaglen aelodaeth ac ystod o wasanaethau newydd i gefnogi darparwyr unigol.

Rwy'n arbennig o falch o'r gwaith a wnaed gan QAA eleni i gefnogi'r sector i ymateb i faterion sy'n dod i'r amlwg, megis y boicot marcio ac asesu, a'r offer deallusrwydd artifisial cynhyrchiol. Mae'r cyngor arbenigol amserol a roddwyd gennym i'r sector yn dangos ein bod yn gallu ymateb i'r tirlun polisiâu mewn ffordd hyblyg a chyflym, gan gefnogi ein haelodau a llunwyr polisiâu fel ei gilydd. Rwyf hefyd yn falch ein bod wedi gallu rhoi ein harbenigedd a'n tystiolaeth i ymholiad Pwyllgor Diwydiant a Chyrff Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi am waith y Swyddfa Myfyrwyr eleni. Rydym wedi atgyfnerthu ein sefyllfa fel y ceidwad sy'n gofalu am safonau addysg uwch drwy fanteisio ar y cyfle a gododd o ganlyniad i fframwaith rheoleiddio'r Swyddfa Myfyrwyr yn symud i fwrdd oddi wrth y Cod Ansawdd Addysg Uwch er mwyn diweddarau'r ddogfen honno, gan sicrhau ei bod yn darparu edau euraid o gysondeb yn safonau'r ddarpariaeth drwy'r DU gyfan. Hefyd, rydym wedi parhau ein gwaith o adolygu'r Datganiadau Meincnodi Pwnc yn gylchol, sydd wedi rhoi cyfle i ni hwyluso arweinyddiaeth y sector o ran ymwreiddio materion yn ymwneud â chydarddoldeb ac amrywiaeth drwy gwricwla academiaidd. Rydym yn ymfalchïo yn ein hanes hir o osod a chynnal safonau academiaidd, ac rydym yn falch bod y gwaith hwn yn parhau'n hanfodol i lwyddiant ac enw da addysg uwch y DU.

O fewn yr Asiantaeth, mae ein symudiad ar ôl y pandemig tuag at weithio hyblyg wedi datblygu ymhellach wrth i ni symud ein swyddfa yng Nghaerloyw i le llai a mwy modern. Trwy gyflwyno ein polisi 'Hyblyg+' sy'n grymuso ein staff i ddefnyddio eu hamser mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw ac i QAA, ynghyd â symud tuag at ddefnyddio dull o arweinyddiaeth drosranedig sy'n benodol i'r diben wrth wneud penderfyniadau, rydym wedi atgyfnerthu ein sefyllfa fel cyflogwr modern, hyblyg a chefnogol, gan fanteisio ar y cyfleoedd a gododd ar ôl y pandemig. Rwy'n hyderus mai dim ond cryfhau ein gallu yn y dyfodol a fydd hyn i ymateb gyda hyblygedd i anghenion sector addysg uwch y DU mewn blynyddoedd i ddod.

Wrth i rethreg gyhoeddus am addysg uwch barhau i grwydro tuag at ddisgrifiadau di-fudd o ansawdd y ddarpariaeth, mae gwaith QAA fel eiriolwr rhyngwladol ar gyfer sector addysg uwch y DU drwy'r byd i gyd wedi dod yn bwysicach nag erioed.

Ar fy ymweliadau tramor eleni, cefais fy nharo gan y parch uchel a roddir yn rhyngwladol i sector addysg uwch y DU, a gwaith QAA ei hun. P'un a ydyw mewn fforymau rhyngwladol megis y Rhwydwaith Rhyngwladol o Asiantaethau Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (INQAAHE), neu wrth ymwneud â llywodraethau'r gwledydd unigol, mae addysg uwch y DU yn cadw ei henw da sydd ymysg y gorau yn y byd. Ond mae'n rhywbeth na allwn ei gymryd yn ganiataol, na gadael i rethreg ddomestig ei danseilio. Dyna pam mae'n bleser mawr gen i fod gwaith QAA drwy'r DU gyfan wedi ei gydnabod fel gwaith sy'n cyfateb ag arferion da y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol gan ENQA, y rhwydwaith Ewropeaidd o gyrff sicrhau ansawdd, ym mis Gorffennaf. Mae'n destament i ymroddiad a gwaith caled parhaus fy nghydweithwyr ar draws yr Asiantaeth, yr wyf yn hynod ddiolchgar iddi amdano.

Credaf fod QAA wedi dod allan o'r flwyddyn hon gan ddeall yn eglur beth yw ei phwrpas a'i chenhadaeth, a fydd yn gyrru ein gwaith i mewn i'r flwyddyn nesaf. Mae asiantaeth sy'n gweithredu gyda gonestrwydd, yn hyderus yn ei harbenigedd ac yn ennyn parch mawr yn y sector, yn asiantaeth sy'n bleser ei harwain, ac mae'n destun balchder a braint imi allu gweithio gyda chynifer o staff dawnus, ymroddedig ac arbenigol i baratoi taith QAA ar gyfer y 26 mlynedd nesaf.

Yr Adroddiad Strategol

Mae QAA yn gweithio ar draws y DU gyfan. Mae gan bob gwlad gyfres o drefniadau sicrhau ansawdd sy'n benodol ac yn hollol ar wahân, felly mae QAA yn gweithio gyda chyrff rheoleiddio a chyllido, sefydliadau addysg uwch, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill drwy'r DU gyfan i ddarparu dulliau sydd wedi eu teilwra.

Strategaeth newydd QAA

Ym mis Ebrill 2023, aethom ati i gyhoeddi ein strategaeth newydd ar gyfer 2023-27, dan y teitl 'Rhagoriaeth, annibyniaeth ac ymddiriedaeth mewn sicrhau a gwella ansawdd'. Mae'r Strategaeth yn disgrifio gwaith QAA mewn pedwar maes ffocws fel a ganlyn:

- **Safonau:** Gwarchod pwyntiau cyfeirio'r sector a thargedu canllawiau i sicrhau safonau academiaidd a gwerth cymwysterau.
- **Sicrwydd a gwelliant:** Cyflwyno dulliau arloesol ac uchel eu parch o reoli ansawdd, gan alluogi i sefydliadau a dysgwyr weithio ar y cyd i werthuso eu harferion a pharhau i wella eu profiad dysgu.
- **Rhyngwladol:** Ehangu ein gweithgarwch rhyngwladol, gan fanteisio ar enw da rhagorol QAA ac addysg uwch y DU drwy'r byd i gyd mewn meysydd newydd er budd addysg drydyddol y DU.
- **Arweinyddiaeth:** Dylanwadu ar lunwyr polisi, prifysgolion a cholegau, myfyrwyr a dysgwyr, a chynnig cymorth iddynt drwy fewnwelediad arbenigol wedi ei gyfleu'n glir.

Mae'r strategaeth yn tynnu sylw at rôl yr Asiantaeth sy'n datblygu yn y DU wrth i'r cyd-destun polisi ddatblygu ymhob un o'i phedair gwlad - ehangiad yn ein gwaith y tu hwnt i addysg uwch i wasanaethu'r sector trydyddol ehangach, a thwf parhaus ein gweithgareddau rhyngwladol.

Pwrpas QAA

Mae QAA yn asiantaeth ansawdd sy'n arwain y byd gyda phrofiad digymar o ddarparu sicrwydd a gwelliant rheoleiddiol a chydweithredol diduedd ym maes ansawdd. Ein diben yw sicrhau bod myfyrwyr a dysgwyr yn cael profiad addysg o'r ansawdd uchaf posibl. Er mwyn cyflawni hynny, rydym yn cynorthwyo prifysgolion a cholegau i weithio gyda myfyrwyr a dysgwyr, llywodraethau a chyrff cyllido a rheoleiddio i ddarparu tystiolaeth a gwella ansawdd rhagorol a safonau uchel yr addysg a ddarperir ganddynt.

Rydym yn gweithio tuag at ddealltwriaeth well ar ran y cyhoedd - gartref ac yn rhyngwladol - o sut y dangosir ansawdd rhagorol mewn addysg uwch yn y DU, a sut mae darparwyr hunanreolus yn sicrhau darpariaeth yr ansawdd honno ac yn mynd i'r afael â gwendidau.

Mae ein gwaith yn diogelu gwerth cymwysterau i fyfyrwyr a dysgwyr, yn ogystal â diogelu a hyrwyddo enw da addysg uwch.

Adolygiad allanol annibynnol o QAA

Gwnaethpwyd adolygiad annibynnol o QAA gan Gymdeithas Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch Ewrop (ENQA), sef y corff ymbarél ar gyfer asiantaethau sicrhau ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop. Un o amodau aelodaeth ENQA yw bod yr asiantaeth yn cael adolygiad bob pum mlynedd o leiaf i wirio a ydyw'n cydymffurfio â'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG).

Cyflwynodd QAA adroddiad hunanasesu sylweddol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023. Ymwelodd tîm adolygu ENQA â QAA ym misoedd Chwefror a Mawrth 2023, gan gwrdd â'i staff, aelodau ei Bwrdd a'i rhanddeiliaid.

Canfu'r adolygiad bod QAA yn cydymffurfio â 12 o'r 14 safon y cafodd ei hasesu yn eu herbyn a'i bod yn cydymffurfio'n rhannol â'r ddau arall. Daeth y panel i'r casgliad bod QAA yn cydymffurfio â'r

ESG yn gyffredinol.

Rhodddwyd nifer o ganmoliaethau i QAA am ei gwaith, gan gynnwys:

- ymgysylltiad y myfyrwyr a welwyd ar wahanol lefelau o strwythur cyfundrefnol a gweithgarwch QAA, a'r rôl y mae QAA wedi ei chwarae wrth hyrwyddo profiad y myfyrwyr a chynrychiolaeth y myfyrwyr
- y mesurau y mae QAA wedi eu rhoi yn eu lle i sicrhau annibyniaeth yr Asiantaeth, yn ogystal â'r cryfder sefydliadol i ddilyn a chynnal ysbryd yr ESG
- gwaith archwilio a chyfathrebu 'gwych' QAA mewn 'meysydd newydd' o sicrhau ansawdd ac addysg uwch yn gyffredinol, sydd wedi arwain at gydnabyddiaeth ryngwladol i QAA fel canolbwynt o wybodaeth ac arweiniad sydd wedi ei sefydlu'n dda.

Mewn perthynas â'r ddau faes o gydymffurfiaeth rhannol, argymhellodd ENQA y dylai QAA ddatblygu cynllun mwy eglur ar gyfer gwneud dadansoddiad thematig o'i holl weithgareddau i roi sicrwydd ansawdd allanol, gan adeiladu ar arferion sydd ar waith yn barod yn yr Alban, a'i fod yn myfyrio ar ei dulliau er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n gyson.

Yn dilyn hynny, defnyddiwyd yr adroddiad i hysbysu'r penderfyniad i adnewyddu cofrestrriad QAA ar y Gofrestr Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd, a bydd Bwrdd ENQA yn defnyddio'r adroddiad wrth benderfynu a fydd QAA yn parhau i fod yn aelod o ENQA ai peidio.

Yr hyn a wnawn

Gwaith rheoleiddio QAA

Gwaith QAA fel y corff sicrhau ansawdd dynodedig yn Lloegr

Ychydig amser cyn dechrau'r flwyddyn adrodd hon, cyhoeddodd QAA ei phenderfyniad na fyddai bellach yn cytuno i gymryd rôl y corff sicrhau ansawdd dynodedig yn Lloegr ar ôl i flwyddyn weithredu'r rôl ddod i ben ar 31 Mawrth 2023. Mae QAA yn dal i fod o'r farn mai cael corff sicrhau ansawdd dynodedig sy'n annibynnol ac yn ddiduedd fyddai orau i wasanaethu myfyrwyr addysg uwch yn Lloegr a'u sefydliadau. Credwn fod arbenigedd, profiad a chydabyddiaeth ryngwladol QAA yn golygu ei bod hi'n ddewis amlwg ar gyfer y rôl hon. Er bod QAA wedi gadael y rôl oherwydd gwrthdaro buddiannau am ei bod ar y Gofrestr Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd (EQAR), barn QAA yw y byddai'n ystyried ceisio dynodiad eto os byddai modd datrys y tensiynau hyn ac eraill a barodd iddi ymadael â'r rôl.

Wedi i ni gyhoeddi na fyddem bellach yn cytuno i gymryd rôl y corff sicrhau ansawdd dynodedig, cafodd ein lle ar yr EQAR oedd wedi ei wahardd dros dro ei ailsefydlu'n ddi-oed.

Mewn perthynas â blwyddyn weithredu'r corff sicrhau ansawdd dynodedig (o 1 Ebrill 2022 hyd 31 Mawrth 2023), cawsom ein comisiynu i wneud 26 o asesiadau o dan y dull Adolygiad o Ansawdd a Safonau a'r dull Asesiad ar gyfer Pwerau Dyfarnu Graddau, sy'n llai nag ydoedd yn y flwyddyn flaenorol (32). Fodd bynnag, cawsom hefyd ein comisiynu i wneud un asesiad newydd o dan y dull Asesiad o Safonau (1 yn y flwyddyn flaenorol), a 29 o asesiadau o dan y dull Sicrwydd Ansawdd Allanol ar gyfer Cyrff Asesu Canlyniadau Terfynol (0 yn y flwyddyn flaenorol), gan olygu bod cyfanswm o 53 o asesiadau wedi eu comisiynu. Roedd hyn yn cynrychioli cynnydd o 66% ar y flwyddyn flaenorol. O'r holl asesiadau a gomisiynwyd, cafwyd 33 yn ystod y cyfnod o 1 Awst 2022. Yn y flwyddyn hon, cyflwynwyd 86 o adroddiadau gennym i'r Swyddfa Myfyrwyr, o'i gymharu â 25 o adroddiadau yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 244% ar y flwyddyn flaenorol.

Wedi i ni gyhoeddi na fyddem bellach yn cytuno i gymryd rôl y corff sicrhau ansawdd dynodedig, gofynnodd y Swyddfa Myfyrwyr i ni ystyried defnyddio fformat adroddiad diwygiedig ar gyfer y dull Adolygiad o Ansawdd a Safonau. Aethom ati'n gyflym i gynhyrchu adroddiad sampl yn y fformat hwn i'r Swyddfa Myfyrwyr a chawsom adborth cadarnhaol heb unrhyw ofyniad i ddiwygio'r dull ymhellach. Felly, roedd nifer fawr o'r asesiadau a gyflwynwyd o fis Rhagfyr 2022 ymlaen yn dilyn y fformat hwn.

Yn unol â'r ymagwedd glir yr oeddem eisiau ei defnyddio wedi i ni gyhoeddi y byddem yn dechrau cyhoeddi adroddiadau asesu cyflawn o fis Gorffennaf 2022 ymlaen, aethom ati ym mis Hydref 2022 i gyhoeddi tabl crynodol oedd yn dangos yr holl asesiadau a wnaethpwyd gennym yn ein rôl fel y corff sicrhau ansawdd dynodedig. Rydym yn parhau i gyhoeddi adroddiadau asesu am fod y Swyddfa Myfyrwyr yn gwneud penderfyniadau rheoleiddiol i ddarparwyr pan fyddwn wedi gwneud asesiad.

Ac eithrio tri asesiad - dau ohonynt lle na allai'r broses o gyflwyno tystiolaeth gael ei chwblhau cyn 31 Mawrth, ac un lle'r oedd disgwyl bob amser i'r broses asesu barhau ar ôl mis Mawrth 2023 - cyflwynodd QAA yr holl adroddiadau cyflawn i'r Swyddfa Myfyrwyr ar neu cyn 31 Mawrth 2023 (ac mewn perthynas â'r dull Sicrwydd Ansawdd Allanol ar gyfer Cyrff Asesu Canlyniadau Terfynol, llwythwyd y wybodaeth i fyny i system ddigidol y Sefydliad Prentisiaethau ac Addysg Dechnegol (IfATE) yn Lloegr), gan gyflawni pob un o'r dyletswyddau sydd gennym fel y corff sicrhau ansawdd dynodedig.

Goruchwyliaeth Addysgol a dulliau adolygu eraill

Mae QAA yn parhau i gyflawni rôl o wneud adolygiadau ar gyfer goruchwyliaeth addysgol er mwyn caniatáu i ddarparwyr addysg uwch wneud cais i Fisâu a Mewnfudo'r DU am drwydded Noddw'r Myfyrwyr. Mae oddeutu 30 o ddarparwyr yn atebol i gael eu hadolygu o dan y dull hwn. Ein bwriad oedd adolygu'r dull yn ystod y flwyddyn hon, ond mae hyn bellach wedi ei ohirio at flwyddyn nesaf am fod adnoddau wedi cael eu blaenoriaethu ar gyfer ein gwaith fel y corff sicrhau ansawdd dynodedig. Mae QAA yn parhau i drafod datblygiadau arfaethedig ym maes goruchwyliaeth addysgol gyda swyddogion y Swyddfa Gartref.

Hefyd, QAA o hyd yw'r corff sy'n gwneud asesiadau er mwyn rhoi cyngor i Weinidogion yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ar geisiadau am bwerau dyfarnu graddau. Roedd dau o'r ceisiadau hyn i fod i gael eu gweithredu yn ystod y flwyddyn hon, ac ni chawsent eu heffeithio gan ein penderfyniad i ymadael â'n rôl fel y corff sicrhau ansawdd dynodedig yn Lloegr. Bydd y gwaith hwn wedi trosglwyddo i'n tîm dros Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon erbyn y flwyddyn nesaf.

Diploma Mynediad i Addysg Uwch

Dechreuodd gwaith QAA fel y corff sy'n rheoleiddio'r Diploma Mynediad i Addysg Uwch weithredu'n arferol eto yn ystod y flwyddyn hon yn dilyn dwy flynedd pan oeddem wedi gweithredu Fframwaith Rheoleiddio Eithriadol yn sgil y pandemig COVID-19. Ym mis Tachwedd 2022, aethom ati i ymgynghori ar nifer o newidiadau i Fanyleb y Diploma. Gwnaethpwyd y gwaith hwn ochr yn ochr â gwaith datblygu oedd yn berthnasol i Gynllun Graddio'r Diploma, a rhoesom gadarnhad i'r sector ym mis Mehefin 2023 am y newidiadau y byddem yn eu gwneud.

Hefyd, rhoesom wybod i'r Asiantaethau Dilysu Mynediad a darparwyr y Diploma am ein bwriad i gynnal ymgynghoriad mawr yn ystod y flwyddyn nesaf ar drefniadau rheoleiddio arfaethedig ar gyfer y Diploma. Rydym yn disgwyl lansio hyn yn ystod yr hydref neu'r gaeaf ac y bydd y newidiadau'n dod yn weithredol rywbryd yn 2024.

Gwasanaethau asesu

Ym mis Mai 2023, aethom ati i lansio'r cyntaf o'n gwasanaethau newydd i ddarparwyr addysg uwch yn Lloegr y gallwn eu cynnig yn awr am nad ni yw'r corff sicrhau ansawdd dynodedig bellach. Trwy'r Gwasanaeth Penodol i Sicrhau Ansawdd a Safonau, mae arbenigedd QAA ar gael i bob darparwr addysg uwch yn Lloegr (p'un a ydynt yn aelodau o QAA ai peidio) i'w cefnogi yn eu gwaith o wella a datblygu eu darpariaeth addysg uwch. Trwy'r Gwasanaeth Pwerau Dyfarnu Graddau, mae ystod o fodiwlau ar gael i ddarparwyr i'w cefnogi i lunio cais am bwerau dyfarnu graddau yn Lloegr.

Rydym yn bwriadu lansio dau wasanaeth arall yn fuan ym mlwyddyn academiaidd 2023-24 a fydd yn cefnogi darparwyr ymhellach gyda gwasanaethau asesu yn unol â'u hanghenion. Bydd hyn yn cynnwys Gwasanaeth i Ddarparwyr Newydd sy'n helpu darparwyr sy'n ceisio cael eu cofrestru gyda'r corff rheoleiddio, a Gwasanaeth Adolygiad Dewisol o Ansawdd i ddarparwyr sydd eisiau dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd.

Hwyluso cydweithrediad rhwng gwledydd y DU

Mae QAA wedi parhau i weithio'n agos gyda chyrff cyllido a rheoleiddio ar draws y tair gwlad ddatganoledig i archwilio cyfleoedd i gydweithio ac alinio eu dulliau eu hunain o wella ansawdd yn agosach. Ym mis Chwefror 2023, yn rhan o'r gwaith o adolygu a datblygu'r dull Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA) yng Nghymru, hwylusodd QAA sgwrs rhwng cyrff cyllido a rheoleiddio'r tair gwlad ddatganoledig a chynrychiolwyr Prifysgolion Cymru a Rhwydwaith Ansawdd Cymru. Cynhaliwyd y cyfarfod i gael adborth gan bob parti ynglŷn â'r cwestiwn a allai egwyddorion/nodweddion arfaethedig y dull Adolygiad GA gael eu mabwysiadu gan yr Alban a Gogledd Iwerddon yn y dyfodol. Bu QAA hefyd yn hyrwyddo sesiwn briffio i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), Cyngor Cyllido'r Alban ac Adran yr Economi yng Ngogledd Iwerddon i drafod yr adolygiad o QAA a gafwyd gan ENQA (y bu pob parti'n cymryd rhan ynddo) ac i gael adborth am gynllun strategol arfaethedig QAA.

Mae QAA hefyd wedi darparu nifer o gyfleoedd i gydweithwyr yn y sector o bob rhan o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon gydweithio a rhannu arferion gwella ansawdd. Mae hyn wedi cynnwys cael cyfraniadau gan gydweithwyr o Gymru a'r Alban yng nghynhadledd QAA Gogledd Iwerddon ym mis Hydref 2022, cynnwys cynrychiolwyr o'r Alban a Gogledd Iwerddon yng Ngrŵp Cynghori QAA ar y dull Adolygiad GA yng Nghymru, a chynnwys cydweithwyr o Gymru a Gogledd Iwerddon yn y gynhadledd Themâu Gwelliant Rhyngwladol ym mis Mehefin 2023. Mae QAA hefyd wedi rhoi cyfleoedd i gydweithwyr o'r gwledydd datganoledig eraill roi cyflwyniadau yn Rhwydwaith Ansawdd Cymru a Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu Prifysgolion Cymru, a rhoddodd cyfranogwyr o sefydliadau addysg uwch yng Nghymru a Gogledd Iwerddon gyflwyniadau'n llwyddiannus i'r Gynhadledd Ryngwladol ar Welliant.

Gwaith QAA yn yr Alban

Comisiynwyd QAA gan Gyngor Cyllido'r Alban i arwain ffrydiau gwaith allweddol y Prosiect Ansawdd Addysg Drydyddol yn yr Alban. Mae'r prosiect yn cynnwys datblygu a darparu dull cyffredin o sicrhau a gwella ansawdd yn y sector addysg drydyddol yn yr Alban. Bydd QAA yn arwain y gwaith mewn dwy ffordd gwaith allweddol o'r prosiect, mewn cydweithrediad â Chyngor Cyllido'r Alban, asiantaethau'r sector, a staff a myfyrwyr y colegau a'r prifysgolion yn yr Alban.

Mae hyn yn cynnwys llunio a gweithredu cylch aml-flwyddyn o adolygu ansawdd yn allanol dan arweiniad cymheiriaid mewn colegau a phrifysgolion, gan weithio'n agos gydag Education Scotland. Bydd QAA hefyd yn arwain y gwaith o gynllunio gweithrediad rhaglen wella genedlaethol ar draws y sector addysg drydyddol yn yr Alban, gan fanteisio ar arbenigedd Rhwydwaith Datblygu'r Colegau. Bydd angen rhagor o gydweithredu â Student Partnerships in Quality Scotland (sparqs) ac Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr yr Alban er mwyn sicrhau bod y bartneriaeth â'r myfyrwyr mor effeithiol ag sy'n bosibl dan y trefniadau newydd.

Mae'r ffaith bod cwmpas y prosiect yn edrych ar y sector addysg drydyddol cyfan yn dangos bod QAA yn ehangu ei gwaith yn sylweddol ac yn alinio â'r amcanion sydd wedi eu hamlinellu yn ein strategaeth newydd i ateb anghenion sefydliadau ar draws y sector addysg drydyddol.

Ym mlwyddyn academiaidd 2022-23 gwelwyd dechrau Cam 1 proses ddau gam o adolygu ansawdd sefydliadol yn allanol. Mae Cam 1 yn cynnwys pob sefydliad addysg uwch yn yr Alban sy'n cael Adolygiad o Ansawdd a Safonau (Adolygiad AS) a Chyfarfod Cyswllt Sefydliadol (Cyfarfod CS) yn ystod blynyddoedd academiaidd 2022-23 a 2023-24. Mae'r Adolygiad AS yn canolbwyntio ar y ffordd y mae'r sefydliad addysg uwch yn rheoli ei safonau a'i ansawdd academiaidd, ac yn ymwreiddio dull sydd â ffocws ar welliant yn y gwaith o ddysgu ac addysgu, ac o reoli profiad ehangach ei fyfyrwyr. Cwblhaodd QAA 7 Adolygiad AS a 12 Cyfarfod CS yn ystod blwyddyn academiaidd 2022-23; bydd 12 Adolygiad AS a 7 Cyfarfod CS yn cael eu cwblhau yn ystod blwyddyn academiaidd 2023-24. Bydd Cam 2 y broses newydd o adolygu ansawdd sefydliadol yn allanol yn cychwyn yn 2024-25 a bydd yn cyd-daro â'r gwaith o ddatblygu adolygiad allanol dan arweiniad cymheiriaid o golegau a phrifysgolion, mewn cydweithrediad ag Education Scotland a'r sector addysg drydyddol yn yr Alban.

Mae'r tair blynedd o'r thema 'Cymunedau Dysgu Cadarn' wedi bod yn dirwyn i ben yn ystod 2022-23. Roedd trydedd flwyddyn a blwyddyn olaf y thema'n canolbwyntio ar ddau llynyn gweithredu: cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a dysgu hygyrch a hyblyg. Gan weithio ar lefelau'r sefydliadau, y clystyrau cydweithredol a'r sector cyfan, datblygwyd amrywiaeth o adnoddau ymarferol sy'n ysgogi'r meddwl a bu cydweithwyr yn y sector yn gwneud defnydd mawr ohonynt. Bydd cyhoeddiadau thema terfynol wedi eu cyhoeddi a'u hyrwyddo yn yr hydref pan fyddwn hefyd yn rhannu'r hyn a ddysgwyd yn y gwerthusiad mawr o waith effaith dros dair blynedd y thema 'Cymunedau Dysgu Cadarn'. Mae'r hyn a ddysgwyd o 20 mlynedd o Themâu Gwelliant, ynghyd â'r gwaith gwella mewn colegau yn yr Alban, yn hysbysu'r gwaith o ddatblygu'r Gweithgarwch Gwella Addysg Drydyddol - sef un o'r ffrydiau gwaith yn fframwaith ansawdd addysg drydyddol cyffredin Cyngor Cyllido'r Alban.

Eleni hefyd oedd pen dau ddegawd o'r dull sicrhau gwelliant a'r Fframwaith Gwella Ansawdd yn yr Alban. Lluniodd QAA raglen o weithgareddau ar ran y sector addysg uwch yn yr Alban. Roedd '20 mlynedd o Welliant' yn defnyddio'r profiad sydd gan gydweithwyr yn y sector o wneud gwaith gwella er mwyn creu cyfleoedd i adfyfrio'n feirniadol, dathlu, ac edrych i'r dyfodol mewn perthynas â gwaith gwella yn yr Alban. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys nifer o flogiau a gweminarau ar-lein, sef lleisiau staff a myfyrwyr oedd wedi chwarae rôl allweddol yn y gwaith o wthio'r gwelliannau yn yr Alban dros yr 20 mlynedd diwethaf, a siaradwyr o wledydd tramor sydd wedi gweithredu dulliau o wella ansawdd, gan gymryd eu hysbrydoliaeth o'r dull o wella ansawdd a ddefnyddir yn yr Alban. Roedd cyfanswm o oddeutu 400 o bobl wedi cofrestru ar gyfer o leiaf un o dri gweminar yr ymgyrch.

Cyrhaeddodd yr ymgyrch '20 mlynedd o Welliant' ei hanterth gyda'r 5ed Gynhadledd Ryngwladol ar Welliant, dan y teitl 'Siapio Profiad y Myfyrwyr Gyda'i Gilydd: 20 mlynedd o Welliant'. Cynhaliwyd y digwyddiad ar 14 a 15 Mehefin 2023 ym Mhrifysgol Glasgow Caledonian. Cymerodd mwy na 430 o gyfranogwyr ran mewn amrywiaeth o sesiynau wyneb yn wyneb neu ar-lein a oedd yn ysgogi'r meddwl ac a oedd yn arddangos arferion arloesol o ran gwella profiad y myfyrwyr. Clywodd y cynrychiolwyr gan amrywiaeth o brif siaradwyr a oedd yn ysbrydoli, gan gynnwys yr Athro David MBA, Prifysgol y Celfyddydau Llundain a Black Leadership Group; Graeme Dey, Gweinidog Llywodraeth yr Alban dros Addysg Uwch ac Addysg Bellach; a Dr Liz Austen a'r Athro Stella Jones-Devitt a gyflwynodd ganlyniadau eu gwerthusiad o'r 20 mlynedd o Themâu Gwelliant.

Gwaith QAA yng Nghymru

Yn dilyn cwblhau cylch cyntaf y broses Adolygiad Gwella Ansawdd (Adolygiad GA) yng Nghymru yn 2021-22, mae QAA wedi gweithio'n eang gyda'r sector addysg uwch yng Nghymru eleni i adolygu a diwygio'r dull Adolygiad GA a'r llawlyfr atodol, cyn i ail gylych y broses Adolygiad GA gael ei weithredu yn 2023-24. Roedd hyn yn cynnwys cyfres o weithdai i'r sector, ymgysylltu â Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu Prifysgolion Cymru, ac ymgynghori â Grŵp Cynghori QAA ar y dull Adolygiad GA sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol. Yn dilyn yr ymgysylltiad cychwynnol, aeth QAA ati i ddatblygu llawlyfr drafft a oedd yn agored ar gyfer ymgynghoriad â'r sector ym misoedd Mai a Mehefin 2023. Ym mis Gorffennaf 2023, cyhoeddwyd y llawlyfr terfynol ochr yn ochr â chrynodeb o'r adborth gan y sector ac ymatebion QAA i'r adborth hwn.

Cwblhaodd QAA Adolygiad Ansawdd Porth o Goleg Caerdydd a'r Fro ym mis Mawrth 2023, ac un arall o Goleg Cambria ym mis Mai 2023. O ran y Broses Ymchwilio Pryderon (Cymru), cafodd QAA ei gomisiynu gan CCAUC hefyd i gwblhau ymchwiliad o Brifysgol Wreccsam (sef Prifysgol Glyndŵr Wreccsam gynt). Cwblhawyd yr ymchwiliad hwn a chafodd ei gyflwyno i CCAUC yn fuan yn 2023.

Rydym yn parhau i gryfhau ein hymrwymiad i'r Gymraeg. Ym mis Mawrth 2022, cyfarfu QAA â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i gael ei harchwilio yn erbyn Safonau'r Gymraeg. Roedd y broses archwilio'n cynnwys gwirio rhai o'i gwasanaethau, tystiolaeth o holiaduron hunanasesu, tystiolaeth o adroddiad blynyddol QAA ar gydymffurfriad gyda Safonau'r Gymraeg, cwynion ac ymholiadau a dderbyniwyd gan y cyhoedd, a thystiolaeth a roddwyd ar lafar yn ystod y cyfarfod archwilio. Yn dilyn y cyfarfod, ysgrifennodd Comisiynydd y Gymraeg at QAA, gan dynnu sylw at nifer o feysydd o arfer da, megis gweithredu llinell ffôn Gymraeg, yn ogystal â gofyn am welliannau mewn perthynas â chynnwys y Gymraeg mewn nifer o feysydd, megis ar ein gwefan ac yn ein trefnau cwyno.

Mae QAA wedi parhau i gefnogi Rhwydwaith Uniondeb ac Asesu Cymru drwy ein cytundeb grant â Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Cyfarfu'r rhwydwaith dair gwaith yn ystod y flwyddyn hon, a chynhaliwyd symposiwm Uniondeb Academiaidd ar-lein ganddo ar 9 Mehefin 2023. Mae'r rhwydwaith wedi trafod amrywiaeth o feysydd polisi, megis cosbau am gamymddwyn academiaidd, a'r defnydd a wneir o dechnoleg deallusrwydd artiffisial ym maes addysg uwch. Denodd y symposiwm fwy na 90 o gyfranogwyr a chafwyd cyflwyniadau yno gan staff a myfyrwyr o brifysgolion Cymru a Lloegr.

Yn rhan o'n cytundeb grant â CCAUC, aethom ati i gefnogi dau brosiect i'r sector cyfan a oedd yn ymwneud â micro-gymwysterau ac arsylwi addysgu gan gymheiriaid. Yn rhan o'r ddau brosiect, casglwyd adborth drwy holiadur gan bob darparwr a reoleiddir ac a gyllidir yng Nghymru a dilynwyd hyn gan gyfres o gyfweiliadau. Yn ystod misoedd Mai a Mehefin, cynhaliwyd gweminarau i gyflwyno canfyddiadau allweddol bob prosiect. Bydd adroddiad cyflawn pob prosiect wedi eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Cyhoeddwyd gennym fod arian ar gael i ddau Brosiect Gwella Cydweithredol arall yng Nghymru, a ariennir gan CCAUC, ar ficro-gymwysterau a dysgu. Mae'r prosiect micro-gymwysterau, dan y teitl 'Gweithredu Fframwaith ar gyfer Cynllunio Micro-gymwysterau', yn cael ei arwain gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd mewn partneriaeth â Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam a Choleg Gŵyr Abertawe. Datblygwyd y prosiect dysgu ymdrwythol, dan y teitl 'Cydweithfa Cymru: Dysgu Digidol', gan Rwydwaith Dysgu ac Addysgu Prifysgolion Cymru, i ddatblygu'r gwaith a wnaed gan Gronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch (Cronfa BAAU) CCAUC. Mae'n cael ei arwain gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac mae'n cynnwys pob prifysgol yng Nghymru.

Gwaith QAA yng Ngogledd Iwerddon

Yn ystod blwyddyn 2022-23, roedd hi'n bleser gan QAA groesawu Union Theological College Belfast yn aelod newydd. Am fod Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi parhau'n anweithredol drwy gydol blwyddyn academiaidd 2022-23, mae QAA wedi parhau i drafod, gyda swyddogion Adran yr Economi yng Ngogledd Iwerddon, y cynnig a gyflwynwyd yn 2021-22 i ddatblygu dull adolygu newydd i Ogledd Iwerddon. Mae'r cynnig hwn wedi cael ei gymeradwyo ar bob lefel angenrheidiol yn yr Adran ac mae'n aros am gymeradwyaeth derfynol yr Ysgrifennydd Parhaol. Yn y cyfamser, mae QAA yn parhau i gysylltu â chydweithwyr yn y sector i gadarnhau dros dro beth fydd aelodaeth grŵp sy'n cynghori ar y dull adolygu. Mae QAA yn gobeithio cychwyn ei gwaith o ddatblygu'r dull ym mlwyddyn academiaidd 2023-24, ar yr amod bod y cynnig wedi ei gymeradwyo'n derfynol mewn pryd.

Yn ogystal â pharhau ei rhaglen o ymgysylltu'n rheolaidd â phrifysgolion, colegau prifysgol a cholegau yng Ngogledd Iwerddon, cynhaliodd QAA ei hail gynhadledd ar-lein flynyddol. Cynhaliwyd y gynhadledd, dan y teitl 'The Future of Quality Enhancement', ar 21 Hydref 2022 a chyfranogodd bron i 70 o gyfranogwyr ynddi o bob cwr o aelodaeth QAA yng Ngogledd Iwerddon. Roedd y gynhadledd yn gyfle i ddod â'r sector at ei gilydd i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r pwyntiau cyfeirio allweddol ar gyfer sicrhau gwelliant mewn ansawdd, ac i ddysgu am arferion sydd ar waith yn barod i wella ansawdd profiad y myfyrwyr yng Nghymru a'r Alban. Cafwyd adborth a oedd yn arbennig o gadarnhaol, a dywedodd nifer fawr o'r cynrychiolwyr eu bod yn croesawu'r cyfle i ffurfio cysylltiadau newydd ar gyfer y dyfodol.

Cefnogi aelodau QAA i wella ansawdd

Gweithgareddau a gwasanaethau yn rhan o Aelodaeth QAA

Dyma oedd pedwaredd flwyddyn model QAA o aelodaeth wirfoddol yn Lloegr, a lanswyd yn gyntaf ar 1 Awst 2019.

Parhaodd y twf yn y diddordeb mewn ymaelodi â QAA ac roedd 260 o ddarparwyr Lloegr yn Aelodau o QAA erbyn diwedd blwyddyn academiaidd 2022-23. O gynnwys darparwyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, roedd gennym gyfanswm o 304 o aelodau ledled y DU.

Ar ôl ymgynghori â'n haelodau, aethom ati i addasu ein cynnig Aelodaeth i gynnwys y pecyn 'Quality Insights' yn ein prif gynnis Aelodaeth erbyn dechrau blwyddyn academaidd 2022-23. Cadwyd 'International Insights' gennym fel pecyn ychwanegol opsiynol. Ar gyfer y darparwyr lleiaf (sef y rheiny sydd â llai na 1,000 o fyfyrwyr addysg uwch), roeddem wedi cynnwys opsiwn i gymryd Aelodaeth Gychwynnol sy'n gadael i'r aelodau hynny ddefnyddio'r adnoddau aelodaeth ond sydd ond yn rhoi mynediad cyfyngedig iddynt i ddigwyddiadau a hyfforddiant. Roedd 29 o'r 260 o aelodau yn Lloegr wedi dewis cymryd y cynnig Aelodaeth Gychwynnol - ac roedd y mwyafrif o'r 29 hynny'n golegau, gyda rhai darparwyr annibynnol.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd QAA 385 o adnoddau i'w haelodau. Yr adnoddau a lawrlwythwyd fwyaf yn ystod y flwyddyn honno oedd yr adnoddau oedd â thema yn ymwneud ag ymgysylltiad myfyrwyr, dangos tystiolaeth o werth, dulliau dysgu digidol a chyfunol, dosbarthiadau graddau, dulliau asesu ac addysg ar sail cymhwysedd.

Aethom ati i gynnal amrywiaeth eang o ddigwyddiadau llwyddiannus i'n haelodau: 5 cynhadledd; 13 o raglenni hyfforddiant; a 71 o sesiynau, gweminarau a gweithdai eraill - yn cynnwys ein cynadleddau 'Quality Matters', 'Quality Insights' ac 'ENQUIRE', yn ogystal â'n Gŵyl Asesu. Cynigiwyd y rhan fwyaf o'n digwyddiadau ar-lein, ond cynhaliwyd dau ddigwyddiad wyneb yn wyneb gennym: cyfarfod ein Fforwm Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio (cyrff PSR) yn y gaeaf a chynhadledd ein Rhwydwaith Aelodau yn y gwanwyn. Yn ogystal, cynhaliodd Tîm Materion Cyhoeddus QAA dair gweminar am dwf technolegau deallusrwydd artifisial cynhyrchiol a oedd yn agored i'r cyhoedd (ac hefyd i Aelodau QAA). Roedd y rhain yn eithriadol o boblogaidd a chafwyd 1,494 o gofrestrïadau ar draws y tri digwyddiad.

Rydym yn parhau i ddatblygu'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu â'n haelodau ac, yn gysylltiedig â hyn, rydym wedi cynyddu amlder ein cyfres o bodlediadau Aelodaeth QAA sydd ar gael ar bob safle ffrydio mawr yn ychwanegol at y wefan QAA, gan alluogi i'n haelodau wrando i mewn pan ddewisant.

Blaenoriaethau gwelliant ac ymateb i faterion sy'n codi

Aethom ati i ddechrau'r prosiect i ddiweddarau Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU (y Cod Ansawdd), gan gynnal cyfres eang o drafodaethau gyda grwpiau a chyrrff rhanddeiliaid er mwyn canfod beth yw'r gofynion a'r dymuniadau allweddol ar gyfer y Cod Ansawdd sydd wedi ei ailddatblygu. Yn dilyn hynny, cynhaliwyd cyfres o weithdai ar-lein i archwilio'r ffyrdd y defnyddir y Cod Ansawdd ar hyn o bryd ac i gael adborth am ei strwythur a'i gynnwys. O hyn, datblygwyd tri model i ysgogi'r meddwl gennym ar gyfer y Cod Ansawdd a thrafodwyd y rhain gennym mewn dau weithdy - un a gynhaliwyd yn ystod cynhadledd ein Rhwydwaith Aelodau ym mis Ebrill a'r llall a gynhaliwyd ar-lein ym mis Mai. Denodd y gweithdai hyn fwy na 200 o bobl o blith ein haelodau. Ar sail yr adborth a gafwyd, aethom ati i ddatblygu model, cyn ymgynghori arno, a byddwn yn archwilio hyn i ddechrau gyda'n cymuned o aelodau ym mis Awst ac yn fuan ym mis Medi 2023. Ein bwriad yw llunio fersiwn drafft o ran ganolog y Cod Ansawdd i'w drafod gyda'r Pwyllgor Sefydlog Asesu Ansawdd i'r DU ym mis Hydref, gyda chyfnod o ymgynghoriad agored yn dilyn hynny.

Ym mis Mawrth 2023, aethom ati i gyhoeddi naw Datganiad Meincnodi Pwnc adolygedig. Mae 14 Datganiad arall yn dal i gael eu hadolygu gan grwpiau cynghori a bydd y rhain wedi eu cyhoeddi yn ystod 2023-24. Mae'r Datganiadau'n disgrifio natur yr astudio a'r safonau academaidd a ddisgwylir gan raddedigion mewn meysydd pwnc penodol. Maent yn nodi'r hyn y gellir disgwyl yn rhesymol i raddedigion mewn pynciau penodol ei wybod, ei wneud a'i ddeall ar derfyn eu hastudiaethau. Cânt eu defnyddio fel pwyntiau cyfeirio wrth gynllunio, darparu ac adolygu rhaglenni academaidd. Ers 2022, mae'r Datganiadau wedi cynnwys testun am y ffordd y gallai meysydd astudio ystyried amcanion cymdeithasol ehangach megis cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant; addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy; anghenion myfyrwyr anabl; a mentergarwch ac entrepreneuriaeth.

Mae myfyrwyr yn parhau i ddylanwadu ar y gwaith y mae QAA yn ei wneud i gefnogi'r sector. Mae'r myfyrwyr yn gynnwysedig yn ein trefniadau llywodraethu, mae dau aelod o'n Bwrdd yn fyfyrwyr ac mae aelodau sy'n fyfyrwyr ar Bwyllgorau Cynghori QAA Cymru a QAA Scotland. Mae ein Pwyllgor Myfyrwyr i Gynghori ar Strategaeth yn cyfarfod yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, gan alluogi i fyfyrwyr o bob cwr o'r DU ddarparu mewnbyn gwerthfawr ar draws ystod gyfan ein gweithgareddau.

Cynhaliwyd cynhadledd 'Quality Matters' gennym eleni oedd yn canolbwyntio ar ymgysylltiad myfyrwyr. Mae'r pecyn cymorth Ymgysylltiad Myfyrwyr, a ddatblygwyd gennym yn ystod 2021-22, yn dal i fod yn un o'n hadnoddau mwyaf poblogaidd, a rhoesom sesiwn hyfforddi atodol i gefnogi ein haelodau wrth gynllunio gweithgareddau gwella ansawdd mewn cydweithrediad â'u myfyrwyr. Yn ogystal, roeddem yn cynnig gweminar oedd yn canolbwyntio ar gyd-greu rhaglenni academaidd ac roedd ein cynhadledd 'Quality Insights' yn cynnwys o leiaf un sesiwn a ddarparwyd ar y cyd gan fyfyrwyr a staff. Cyfarfu ein Rhwydwaith Ansawdd i Fyfyrwyr, a lansiwyd yn 2021-22, dair gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd gyfredol, gan roi cyfle anffurfiol i fyfyrwyr a staff sy'n cefnogi myfyrwyr ddod at ei gilydd i gyfnewid sylwadau a thrafod pynciau cyfredol, megis dulliau o gynnwys myfyrwyr mewn pwyllgorau a gweithgorau, a deallusrwydd artifisial (DA) cynhyrchiol.

Mae uniondeb academaidd yn parhau i fod yn bwnc llosg. Yn y flwyddyn gyfredol, symudodd y ffocws oddi wrth y melinau traethodau ac at yr effaith y mae offer DA cynhyrchiol yn ei chael. Aethom ati i gynhyrchu cyfres o ganllawiau i'n haelodau ynglŷn â sut i ddilysu gwaith myfyrwyr a llunio asesiadau, ochr yn ochr â chyfres o ddigwyddiadau ar-lein atodol - roedd rhai ohonynt yn canolbwyntio ar agweddau positif yr offer DA ac roedd rhai'n cynorthwyo gyda rheoli achosion o gamymddwyn. Rydym yn parhau i annog darparwyr addysg uwch i lofnodi Siarter Uniondeb Academaidd QAA er mwyn dangos eu hymroddiad i ddiogelu a hybu uniondeb academaidd, ac i fynd i'r afael â chamymddwyn academaidd. Hyd yn hyn, mae mwy na 200 o sefydliadau addysg uwch wedi lofnodi'r Siarter, yn cynnwys pob prifysgol yng Nghymru a'r Alban.

Mae ein rhaglen o gefnogi Prosiectau Gwella Cydweithredol yn parhau i fynd o nerth i nerth. Rydym yn cefnogi 16 o brosiectau sy'n cynnwys 70 o bartneriaid ar draws y sector, yn cynnwys darparwyr ac undebau myfyrwyr o bob math. Mae'r rhain yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, o lunio asesiadau a hybu cyflogadwyedd, i ddatblygu partneriaethau staff-myfyrwyr ac arloesi ym maes sicrhau a gwella ansawdd. Mae'r prosiectau hyn wedi cynhyrchu amrywiaeth eang o adnoddau ymarferol sy'n llawn gwybodaeth i'n haelodau a'r sector ehangach.

Mae micro-gymwysterau a dysgu hyblyg yn dal i fod yn feysydd o ddiddordeb strategol sylweddol i lawer o aelodau QAA a llunwyr polisïau yn y DU a ledled y byd, yng nghyd-destun uchelgeisiau Llywodraeth y DU mewn perthynas â dysgu gydol oes a'i deddfwriaeth gysylltiedig ar gyfer hawl i gael benthychiad gydol oes. Wedi i ni gydweithio â rhwydwaith cynghori, aethom ati i adolygu ein Datganiad o Nodweddion ar gyfer Micro-gymwysterau eleni. Mae'r Datganiad yn disgrifio rhai o nodweddion penodol micro-gymwysterau a'r myfyrwyr sy'n astudio ar eu cyfer. Mae hyn yn ychwanegu at adnoddau eraill a gynhyrchwyd gan QAA i gefnogi ei haelodau, yn cynnwys pecyn cymorth dysgu hyblyg a gwaith gan un o'n Prosiectau Gwella Cydweithredol ar swmp-ddarparu.

Cawsom drafodaethau drwy gydol y flwyddyn i archwilio effeithiolrwydd y dull o ddsbarthu graddau a ddefnyddir yn y DU. Roedd y rhain yn cynnwys trafodaethau yn ystod Uwchgynhadledd Strategol y Dirprwy Is-Gangellorion (Addysg), trafodaeth banel gyda chydweithwyr uwch o'r sector yn ystod y gynhadledd 'Quality Insights', a sgwrs ryngweithiol yn ein cynhadledd 'ENQUIRE' a oedd wedi ei thargedu at gynulleidfa academaidd. Yn gyffredinol, dangosir diddordeb yn y posibilrwydd o symud tuag at ddulliau sy'n canolbwyntio llai ar y dosbarthiadau presennol a cheir diddordeb mewn dau ddull amgen, sydd braidd yn wahanol - un yn ymwneud â system adrodd pasio/methu gydag adborth ychwanegol am agweddau o gyflawniad y myfyrwyr, a'r llall yn ymwneud â rhestru myfyrwyr o fewn eu carfan yn ôl eu cyflawniad. Ein bwriad yw ffurfio grŵp cyfeirio o blith aelodau'r sector i gytuno ymhle mae'r blaenoriaethau ar gyfer symud hyn yn ei flaen. Rydym yn rhagweld y bydd nifer o ffactorau'n rhoi pwysau parhaus ar y system ddsbarthu graddau, megis y ffocws gwleidyddol ar chwyddiant mewn graddau a'r cynnydd yn y defnydd a wneir o offer DA.

Atgyfnerthu enw da addysg uwch y DU drwy'r byd i gyd

Mae QAA yn parhau i ddatblygu cytundebau cydweithredol â sefydliadau partner tramor er mwyn gwella'r hyder a'r ddealltwriaeth gilyddol rhwng sefydliadau addysg uwch yn y DU a thramor. Llofnododd QAA bedwar Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd eleni, gan olygu bod 21 o gytundebau'n weithredol bellach gydag asiantaethau partner a chyrrff rheoleiddio tramor. Llofnodwyd cytundebau newydd gyda'r Awdurdod Addysg a Hyfforddiant [Education & Training Authority (BQA)] yn Bahrain, y Comisiwn Addysg Uwch [Commission on Higher Education (CHED)] ar Ynysoedd y Philipinau, Cyngor Gwerthuso

ac Achredu Addysg Uwch Taiwan [Higher Education Evaluation and Accreditation Council of Taiwan (HEEACT)] a gydag Awdurdod Parth Economaidd Ras Al Khaimah [Ras Al Khaimah Economic Zone Authority (RAKEZ)] yn yr Emiraethau Arabaidd Unedig. Hefyd, mae QAA wedi ei thrwyddedu gan y Weinyddiaeth Addysg a Hyfforddiant yn Fietnam i roi achrediadau i sefydliadau a rhaglenni.

Yn ystod blwyddyn 2022-23, cafwyd newidiadau sylweddol yn y tîm Materion Rhyngwladol a Gwasanaethau Proffesiynol. Am fod nifer o aelodau'r staff wedi ymadael, yn cynnwys y Cyfarwyddwr, ac oherwydd y penderfyniadau a wnaed i drefnu a lleoli adnoddau yn Lloegr, nid oedd y tîm llawn sy'n gyfwerth â 9.4 o staff llawn amser yn ei le tan 1 Ebrill 2023.

Mae'r amgylchedd busnes wedi parhau'n gystadleuol, gydag asiantaethau achredu rhyngwladol yn gostwng eu prisiau'n ffyrnig gan dynnu'r prisiau i lawr mewn rhai marchnadoedd. Ystyrir fod gwasanaethau QAA yn rhai o'r 'safon uchaf', ond mae'r brand yn dal i fod wrthi'n datblygu mewn nifer o farchnadoedd yn Asia, Affrica ac Ewrop, a bydd angen gwneud mwy o waith marchnata.

Er gwaethaf y cyfyngiadau uchod, gorffennodd y flwyddyn hon yn gryfach nag oedd hi ar y dechrau, a chyhoeddwyd cyfanswm o chwe Adolygiad Ansawdd Rhyngwladol (Adolygiad ARh, neu IQR yn y Saesneg) o sefydliadau yn Albania, Qatar, Fietnam, Ffiji, Ynysoedd Maldives a'r Emiraethau Arabaidd Unedig yn 2022-23 - un yn llai na'r flwyddyn flaenorol ond pedwar yn fwy nag yn 2020-21.

Roedd cyfanswm yr incwm a ddeilliodd o'r Adolygiadau ARh yn uwch na £410,000, gyda £600,000 arall ar y gweill (yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau adolygu) a fydd wedi ei adlewyrchu ym mlwyddyn ariannol 2023-24. Galluogodd yr arian gan Fanc y Byd ar gyfer y prosiect 'IQR for ACE Impact' i 16 o brifysgolion gael eu hadolygu o dan y dull Adolygiad ARh, a thalwyd £215,000 o'r gronfa hon.

Cafodd y gwasanaeth Achrediad Rhyngwladol i Raglenni newydd ddechrau araf wrth i'r cynnig ddod yn hysbys: achredwyd dwy raglen gennym ym Macao a llofnodwyd contractau gennym i ddarparu pedwar achrediad arall ym Macao, Nigeria a Kuwait. Cyfanswm yr incwm oedd £50,000, oedd yn llai na'r disgwyl ac a barodd i addasiadau gael eu gwneud i drefnu y gwasanaeth a'r gwaith o'i farchnata.

Yn 2022-23, ymunodd 11 sefydliad newydd â chynlluniau aelodaeth ryngwladol ac aelodaeth ryngwladol gyswilt QAA, gan ddod â referniw o oddeutu £77,000, gyda £50,000 arall ar gontract a lofnodwyd. Rydym yn rhagweld y bydd ein haelodaeth ryngwladol yn cynyddu wrth i'n cynnig gwasanaeth i aelodau o wledydd tramor ddatblygu, ac wrth i nifer y sefydliadau gynyddu sy'n dod yn aelodau llawn QAA wedi iddyn nhw gael eu hachredu'n llwyddiannus o dan y dull Adolygiad ARh.

Unwaith eto, mae'r galw am waith contract pwrpasol wedi bod yn uwch na'r disgwyl, a darparwyd contractau â gwerth uwch na £400,000 ym Malta, Hong Kong, Fietnam, Macao, Ynysoedd y Philippines, Oman, India, yr Emiraethau Arabaidd Un a Phacistan. Mae'r gwaith hwn yn helpu i ddatblygu cysylltiadau ag asiantaethau'r llywodraethau, y British Council a chyrrff eraill.

Mae'r Cynllun GA-AD ar gyfer adolygu darpariaeth addysg uwch draws-wladol, a gomisiynwyd gan Prifysgolion y DU a GuildHE, wedi cwblhau ei ail flwyddyn lawn (o gyfanswm o bump) gyda 78 o sefydliadau o'r DU yn cymryd rhan ynddo. Yn ystod y flwyddyn, cynhyrchwyd cyhoeddiadau o flwyddyn gyntaf y cynllun a oedd yn cynnwys tri chyhoeddiad 'Thematic Insights' a thri chyhoeddiad 'Spotlight' ar asiantaethau sicrhau ansawdd yn yr Emiraethau Arabaidd Unedig a'r Almaen; canllawiau 'Country Guide' am yr Emiraethau Arabaidd Unedig, yr Almaen a'r Aifft; wyth adroddiad am ymweliadau â safleoedd sefydliadau; a saith astudiaeth achos.

Mae'r adroddiad cyntaf am brofiad y myfyrwyr ar fin cael ei gyhoeddi, ac mae darn hirach am brofiad/ymgysylltiad y myfyrwyr wrthi'n cael ei ddatblygu i'w dreialu gyda nifer o ddarparwyr a werthuswyd yn barod. Symudodd y gwaith ar gyfer ail flwyddyn y Cynllun yn ei flaen gyda Sri Lanka, Tsieina a Saudi Arabia.

O ystyried y sefyllfa wleidyddol ac economaidd bresennol yn Sri Lanka, datblygwyd dull gwerthuso sy'n canolbwyntio ar themâu penodol. Ymwelwyd â thri sefydliad yn rhithwir ac mae ymweliad arall ar y gweill ym mis Hydref. O ganlyniad i'r cyfnod clo estynedig yn Tsieina, cafwyd un ymweliad ac

mae pedwar arall wedi eu cynllunio ar gyfer yr hydref.

Datblygodd y gwasanaeth 'International Insights' sy'n rhan o'r cynnig i'n haelodau yn y DU a chafwyd cynnydd yn y sefydliadau a gofrestrodd ar ei gyfer yn Lloegr o 66 i 77. Roedd y rhaglen yn cynnwys adnoddau'r cyfresi 'Country Resources' a 'Territory Resources' am Pacistan, Singapore a Hong Kong, dwy lefel o hyfforddiant i staff sy'n gweithio mewn partneriaethau, a chanllawiau cyhoeddus am gefnogi myfyrwyr rhyngwladol yn y DU a gwella eu profiadau.

Ym mis Mawrth, cynhaliodd QAA Fforwm Partneriaid Rhyngwladol ar-lein, a chymerodd 30 o asiantaethau partner ran ynddo, a chynhaliwyd cinio rhwydweithio rhyngwladol gennym yn rhan o Fforwm Addysg y Byd yn Llundain, a daeth 34 o swyddogion uwch iddo o'r Aifft, Angola, Y Ffindir, India, Kazakhstan, Morocco, Pacistan, Ynysoedd y Philipinau ac Uzbekistan.

Aeth QAA ati i gymryd rhan a chyflwyno sesiynau mewn nifer o ddiwyddiadau, a oedd yn cynnwys cynhadledd 'Going Global' y British Council yn Singapore a'i daith fasnach addysg uwch i Indonesia, Cynhadledd Ddwyflynyddol y Rhwydwaith INQAAHE yn Astana, Uwchgynhadledd Prifysgolion y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica yn Kuwait, Symposiwm a Seremoni Wobrwyo'r Ganolfan Arloesedd Dysgu ac Atebion Gwybodaeth Pwrpasol [Center for Learning Innovations & Customized Knowledge Solutions] yn Abu Dhabi, a bord gron 'Sicrhau Ansawdd Addysg Drawswladol' y Gweinidog yn Almaty.

Ym mis Gorffennaf, ymaelododd QAA â British Expertise International - sef y gymdeithas ddiwydiannol sy'n hyrwyddo gwasanaethau ymgynghori yn y DU mewn marchnadoedd rhyngwladol.

Roedd prosiect i wella ein prosesau ar waith drwy gydol y flwyddyn. Y blaenoriaethau oedd awtomeiddio'r system anfonebu, darparu dewisiadau digidol amgen ar gyfer rhannu/lanlwytho dogfennau a chyfathrebu i randdeiliaid ledled y byd, sefydlu taliadau ar-lein a chontractau clicio-i-dderbyn, a datblygu system adborth ganolog, wedi ei systemu i fonitro boddhad y cwsmeriaid ac i ganiatáu gwelliant parhaus yn y gwasanaethau.

Y gwersi a ddysgwyd

Mae'r cynnydd cyflym yn y deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol wedi creu her sylweddol ym maes addysg drydyddol, ac mae'r darparwyr nid yn unig yn wynebu'r risg o gamymddwyn academiaidd ond maent hefyd wedi cael y cyfle i ail feddwl sut y maent yn llunio eu cyrsiau a'u dulliau darparu. Mae gallu QAA i ddod ag arbenigwyr o'r sector at ei gilydd a rhoi cyngor ac arweiniad y gellir ei ddefnyddio a'i addasu'n gyffredinol wedi bod yn hynod werthfawr unwaith eto. Rydym yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â phroblemau o'r fath yn gyflym ac rydym wedi addasu ein proses gynllunio flynyddol i gadw capasiti wrth gefn a fydd yn gadael i ni ymateb yn chwim.

Daeth ein penderfyniad i ymadael â'n rôl fel y corff sicrhau ansawdd dynodedig yn Lloegr i rym yn ystod y flwyddyn, ac ymysg ein paratodau ar gyfer y newid hwn yng nghydwysedd ein gwaith roedd ymgynghori â'n rhanddeiliaid am ein strategaeth newydd, ei gyhoeddi o fewn dyddiau wedi i'n gwasanaeth yn y maes hwnnw ddod i ben, lansio'r cyntaf o'n gwasanaethau newydd yn Lloegr, a chael safle mwy cyhoeddus fel corff y DU o arbenigwyr ym maes sicrhau ansawdd. Yn yr un flwyddyn, cwblhawyd ymarfer estynedig a gwerthfawr gennym mewn hunanwerthuso cyn yr adolygiad gan ENQA, a ysgogodd welliannau yn rhai o'n prosesau mewnol a'n dogfennaeth sy'n gysylltiedig â'r prosesau hynny. O ystyried y flwyddyn yn ei chyfanrwydd, roedd hon yn amlwg yn flwyddyn o newid sylweddol i'r Asiantaeth, ond roedd hefyd yn un y mae QAA wedi dod allan ohoni nid yn unig gyda'i phwrpas wedi ei adfywio ond hefyd gan fynegi ei harbenigedd mewn ffordd fwy eglur a hyderus.

Edrych ymlaen

Mae'n edrych yn debyg y bydd y pwysau ariannol ar y sector yn y DU yn cynyddu ymhellach yn 2023-24. Yn y cyd-destun hwnnw, bydd QAA yn canolbwyntio ar werth ein gwasanaethau i'r sector, a hynny'n cynnwys ein gwerth ar sail ein haelodau. Yn ystod y flwyddyn, bydd ein gwaith ym maes ansawdd a safonau'n canolbwyntio ar adolygu'r Cod Ansawdd. Yn Lloegr, byddwn yn lansio rhagor o wasanaethau newydd ac yn ceisio cael darlun mwy eglur o faint y galw am gymorth o fewn y sector.

Yng Nghymru a'r Alban, bydd y llywodraethau a'r cyrff cyllido a rheoleiddio'n edrych fwy a mwy ar y sector addysg drydyddol yn ei gyfanrwydd. Bydd QAA yn gweithio gyda phartneriaid yn yr Alban wrth i ni arwain ffrydiau gwaith yn y Prosiect Ansawdd Addysg Drydyddol; yng Nghymru, byddwn yn parhau i baratoi ar gyfer y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil sydd newydd ei sefydlu, a fydd yn gwbl weithredol ym mis Ebrill 2024. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r sector yng Ngogledd Iwerddon wrth i ni ddatblygu dull adolygu newydd.

Byddwn yn parhau i ehangu ein rhwydwaith rhyngwladol o bartneriaethau wrth i ni gefnogi sector addysg uwch y DU ledled y byd, dysgu o arferion da mewn rhannau eraill o'r byd a helpu i feithrin gallu yn y manau lle ceisir ein harbenigedd. Byddwn yn adolygu ein cynnig Achrediad Rhyngwladol i Raglenni gan ystyried yr ymateb sydd wedi bod yn araf hyd yn hyn, a byddwn yn parhau i ddarparu ein dull Adolygiad Ansawdd Rhyngwladol llwyddiannus. Gobeithiwn y bydd ein haelodaeth yn cynyddu ymhellach drwy'r byd i gyd.

Yn rhan o'n gwaith sy'n ymwneud â materion cyhoeddus, byddwn yn cyhoeddi ein hargymhellion i'r dyfodol ar gyfer system rheoli ansawdd i Loegr mewn cyfres o friffiau am bolisïau.

Yr adolygiad ariannol

Paratowyd y datganiadau ariannol yn unol â gofynion y *Datganiad o Arferion Cymeradwy i Elusennau*. Dangosir yr adnoddau a wariwyd ar weithgareddau elusennol wedi eu rhannu rhwng amcanion ein strategaeth ar gyfer 2023-27. Mae'r nodyn am gyfanswm yr adnoddau a wariwyd (nodyn 7 ar dudalen 44) yn rhannu'r categorïau yma ymhellach ac yn cynnwys dyraniad o gostau cefnogi ar draws yr amcanion.

Y canlyniadau

Cafodd gweithgareddau QAA yn 2022-23 eu hariannu'n bennaf drwy ffioedd y gellir eu codi o dan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017, drwy ffioedd aelodaeth gan ddarparwyr addysg uwch, drwy gcontractau gyda'r cyrff cyllido addysg uwch, drwy ffioedd am waith adolygu dramor, a thrwy ffioedd am oruchwylio ac adolygu darparwyr amgen sy'n cynnig addysg uwch. Cynhyrchwyd incwm ychwanegol drwy incwm o fuddsoddiadau eraill.

Incwm net QAA ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2023, cyn i'r enillion ar fuddsoddiadau gael eu cydnabod, oedd £639,935 (2022: colled net o £1,917,714). Ar ôl i'r colledion net ar fuddsoddiadau o £82,183 (2022: colled o £284,753) gael eu cydnabod, y symudiad yn y cronfeydd net ar gyfer y flwyddyn oedd cynnydd o £557,752 (2022: gostyngiad o £2,202,667) sydd wedi cynyddu'r cronfeydd wrth gefn. Y cronfeydd cronedig ar 31 Gorffennaf 2023 yw £3,090,586 (2022: £2,532,834).

Mae QAA Enterprises Limited, sef is-gwmni masnachol ym mherchnogaeth lwyr QAA, wedi gwneud colled o £440 (2022: elw o £1,567) i warged y grŵp. Derbyniodd yr elusen rodd cymorth o £1,567 (2022: £0) yn ystod y flwyddyn.

Yr incwm

Mae cyfanswm yr incwm, fel y gwelwch yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, wedi cynyddu o £321,858 (3.3%) i £10,110,143 rhwng 2021-22 a 2022-23. Mae'r incwm o weithgareddau elusennol yn dangos cynnydd net o £249,565 (2.6%).

Mae'r incwm wedi cynyddu o ganlyniad i gynnydd mewn gwasanaethau aelodaeth a gwasanaethau i ddarparwyr amgen, yn bennaf mewn ymateb i gynnydd yn y nifer o fyfyrwyr a chynnydd yn y gyfradd chwyddiant (£457,611). Mae'r cynnydd hwn wedi ei wrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad yn yr incwm o waith rhyngwladol (£143,535) am fod cyflawniad contractau a gafwyd yn 2022-23 wedi cael ei ohirio hyd 2023-24.

Mae'r incwm o fuddsoddiadau wedi cynyddu o £76,728 (50.2%) i £229,640.

Yr incwm o fuddsoddiadau yw'r llog o adneuon arian, ynghyd â difidendau a llog o fuddsoddiadau asedau sefydlog. Mae adenillion ar fuddsoddiadau'n cael eu trafod yn yr adran 'Rheoli'r trysorlys' isod.

Y gwariant

Mae cyfanswm y gwariant elusennol, ar ôl ystyried y ddarpariaeth pensiynau fel y gwelwch yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol, wedi gostwng o £2,235,991 (19.1%) i £9,470,208 rhwng 2021-22 a 2022-23.

Dyddiad y prisiad actiwaraid ffurfiol diweddaraf o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig o dan gynllun USS oedd 31 Mawrth 2020, a gynhaliwyd er mwyn bodloni gofynion *Deddf Pensiynau 2004*. Mae'r prisiad actiwaraid hwn yn dangos £14.1 biliwn o ddiffyg yng nghynllun USS lle mae asedau'r cynllun yn ddigonol i dalu 83% o'i rwymedigaethau o ran 'darpariaethau technegol'. Yn rhan o brisiad 2020, cyflwynwyd cynllun adfer diffyg newydd sy'n gofyn am dalu 6.2% o'r cyflogau dros y cyfnod o 1 Ebrill 2022 hyd 31 Mawrth 2024 a phryd hynny bydd y gyfradd yn cynyddu i 6.3% hyd fis Ebrill 2038.

Mae'r rhwymedigaeth i adfer diffygion ar gyfer 2023 yn adlewyrchu'r cynllun hwn. O ganlyniad i gynnydd yng nghyfradd y disgownt a ddefnyddir i gyfrifo'r diffyg, mae'r diffyg wedi gostwng o £661,063 yn ystod y flwyddyn, yn wahanol i'r cynnydd o £2,034,191 a gafwyd yn 2021-22 pan weithredwyd y cynllun adfer am y tro cyntaf.

Mae'r gwariant ar weithgareddau elusennol, cyn ystyried y ddarpariaeth pensiynau, wedi cynyddu o £456,849 (4.7%) i £10,118,067 (2022: £9,661,218). Cafwyd y cynnydd hwn o ganlyniad i gynnydd yn y costau darparu yn unol â chynnydd yn yr incwm, a thrwy gynnwys darpariaeth ariannol o £300,000 ar gyfer adfer adeiladau.

Mae manylion y gwariant elusennol fesul yr amcan strategol i'w gweld yn nodyn 6 ar dudalen 43.

Mae dadansoddiad o'r gwariant elusennol sy'n gwahaniaethu rhwng costau uniongyrchol a chostau cefnogi i'w gael yn y nodyn cyfanswm y gwariant elusennol (nodyn 7, tudalen 44).

Y fantolen

Cyfanswm y cronfeydd ar fantolen grŵp QAA yw £3,090,586 (2022: £2,532,834). Mae gwerth net ar bapur yr asedau diriaethol ac anniriaethol sefydlog sy'n cael eu dal gan y grŵp a'r elusen yn dangos gostyngiad o £79,372. Mae gwerth net ar bapur y buddsoddiadau mewn asedau sefydlog wedi cynyddu o £93,494 i £6,016,331.

Mae'r swm o dan 'ddyledwyr masnach' wedi gostwng o £1,235,616 i £1,807,989 oherwydd mae QAA wedi ymadael â'i rôl fel y corff sicrhau ansawdd dynodedig yn Lloegr. Mae hyn, yn ei dro, wedi gostwng yr incwm gohiriedig o £2,096,529 i £4,211,094.

Y Polisi cronfeydd wrth gefn

Mae polisi cronfeydd wrth gefn QAA yn sefydlu ystod darged o gronfeydd rhydd wrth gefn, sy'n cymryd i ystyriaeth: effaith ariannol risgiau; anwadalwch y ffrydiau incwm presennol a rhai'r dyfodol; y camau gweithredu sy'n ofynnol pan fydd incwm yn gostwng; ac effaith ymrwymadau'r dyfodol. Yn dilyn yr adolygiad blynyddol, mae ystod darged y cronfeydd rhydd wrth gefn o ganlyniad i hynny wedi eu gosod rhwng £1.3 a £2.0 miliwn. Lefel y cronfeydd rhydd wrth gefn sydd ar gael yw £2.5 miliwn; mae hyn yn uwch na'r ystod yma. Mae'r Bwrdd wrthi'n ystyried sut i ostwng lefel y cronfeydd rhydd wrth gefn.

Yn rhan o'r cyfrifoldebau sydd gan yr Ymddiriedolwyr am sicrhau bod y sail busnes gweithredol yn cael ei mabwysiadu'n briodol wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ystyriwyd amrediad o sefyllfaoedd. Mae'r tybiaethau wedi eu modelu ar y rhagolygon am effaith bosibl y newidiadau sy'n hysbys yn y sector ac yn y rheoliadau, ochr yn ochr â'r ymatebion a gynigiwn ar gyfer y 18 mis nesaf.

Ar sail yr adolygiad hwn, mae'r datganiadau ariannol hyn wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol, y mae'r Ymddiriedolwyr yn eu hystyried yn briodol o edrych ar ganlyniadau'r flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023 a'r sefyllfa a ragfynegydd ac amcanestyniadau llif arian a baratowyd ar gyfer y cyfnod hyd 31 Gorffennaf 2025. Mae'r amcanestyniadau llif arian yn dangos y bydd y grŵp yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus ac y bydd yn gallu gweithredu o fewn y darpariaethau sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn nad oes unrhyw ansicrwydd materol ynghylch hyfywedd ariannol y cwmni elusennol.

Mae QAA yn dal cronfeydd wrth gefn am dri phrif reswm:

- i sicrhau ei sefyllfa dymor hir
- i gyflawni'r amcanion tymor canolig sydd yn strategaeth QAA, drwy sicrhau bod lefelau cronfeydd wrth gefn yn amddiffyniad yn erbyn risgiau tymor canolig i'r busnes ac yn rhoi ystyriaeth lawn i gostau'r amcanion tymor canolig
- i sicrhau ei bod yn gallu gweithredu'r rhaglen waith sydd wedi ei disgrifio yn y cynllun blynyddol ar gyfer y flwyddyn nesaf - er enghraifft, drwy ymdrin â'r diffygion cymeradwy mewn weithgareddau

tymor byr nad ydynt wedi eu cyllido'n llawn.

Mae Cronfa ddynodedig ar gyfer *Arloesi a Datblygu* wedi ei chlustnodi "ar gyfer arloesi mewn cynhyrchion a gwasanaethau er budd addysg uwch y DU yn y tymor hir". Balans agoriadol y gronfa oedd £343,694; trosglwyddwyd swm ychwanegol o £140,000 i'r gronfa, a thalwyd £91,973 yn ystod y flwyddyn i ariannu datblygiad gwasanaethau newydd i'r DU.

Pwrpas y gronfa ddynodedig ar gyfer *Adfer adeiladau* yw talu cost adfer ein hadeiladau yng Nghaerloyw a Glasgow i'w cyflwr gwreiddiol ar ddiwedd tymor eu prydles berthnasol. Daeth prydles y swyddfa yng Nghaerloyw i ben ar 30 Mehefin 2023, ac ildwyd prydles y swyddfa yn Glasgow ym mis Tachwedd 2023. Felly, rhoddwyd darpariaeth ariannol o £300,000 yn lle'r gronfa wrth gefn hon, gan adlewyrchu'r amcangyfrif gorau o gostau terfynol y ddwy brydles.

Ar 31 Gorffennaf 2023, cronfeydd rhydd wrth gefn QAA fel y maent wedi eu diffinio gan y *Datganiad o Arferion Cymeradwy i Elusennau* oedd £2,501,542 (2022: £1,432,448).

Rheoli'r trysorlys

Y prif egwyddorion sy'n tanategu polisi rheoli trysorlys QAA yw sicrhau:

- Bod gan QAA ddigon o arian a chyfalaf gweithio i sicrhau bod ganddi ddigon o arian ar gael bob amser i gyflawni ei hamcanion busnes
- Bod buddsoddiadau QAA yn ddiogel - cyflawnir hyn drwy sicrhau bod ei buddsoddiadau awdurdodedig yn adlewyrchu agwedd ochelgar, gwrth risg, tuag at y sefydliadau y gellid rhoi arian i mewn iddynt, ac yn cyfyngu ar ei gweithgareddau buddsoddi i'r rheiny a gymeradwyir
- Mae QAA yn sicrhau'r ad-daliad mwyaf ar ei buddsoddiadau, gan ystyried yr egwyddorion allweddol eraill
- Mae QAA yn lleihau'r risg o dwyll neu wall yn ei gweithgareddau rheoli trysorlys - sicrheir hyn drwy gynllunio systemau, gweithdrefnau a threfniadau rheoli wrth gefn sy'n addas i leihau'r risg o dwyll neu wall.

Yn ystod 2022-23, parhawyd i ddilyn y dull buddsoddi diwygiedig y cytunwyd arno gan yr ymddiriedolwyr, a chafodd y cronfeydd oedd ar gael eu rhannu'n dybiannol yn dair cangen a'u rheoli fel a ganlyn:

- **cyfalaf gweithio tymor byr** - sy'n cael ei ddal gan fancwyr QAA, HSBC Bank plc, a'i reoli'n fewnol
- **cronfeydd arian tymor canolig** - a fuddsoddiwyd gyda HSBC Bank plc a Lloyds Bank plc a'u rheoli'n fewnol yn unol â'n cynllun llif arian i fodloni'r gofynion am gyfalaf gweithio tymor byr
- **cronfeydd tymor hirach wrth gefn** - rhoddwyd mwy na £5 miliwn gyda Rathbones Investment Management Limited (Rathbones) i'w fuddsoddi yn ôl eu disgrisiwn mewn cyfranddaliadau rhestredig a stociau'r llywodraeth.

Mae'r cronfeydd a roddwyd gyda Rathbones yn cael eu buddsoddi mewn cronfa elusennol benodol sy'n atebol i gyfyngiadau buddsoddi moesegol.

Gellir priodoli'r incwm o fuddsoddiadau yn ystod y flwyddyn i'r £42,205 o logau derbyniadwy o falansau cyfalaf gweithio tymor byr, ynghyd â £187,435 o logau a difidendau a dderbyniwyd o fuddsoddiadau asedau sefydlog.

Gwerth marchnadol y buddsoddiadau yw £6.0 miliwn (2022: £5.9 miliwn). Y colledion net heb eu gwireddu yng ngwerth y cronfeydd ar y farchnad ar 31 Gorffennaf 2023 oedd £82,183 (2022: colled o £284,753); mae hyn yn adlewyrchu'r ansicrwydd yn y marchnadoedd stoc ledled y byd. Mae gwarged y llogau a'r difidendau a dderbyniwyd ar ôl talu ffioedd am reoli, ynghyd ag enillion neu gollledion net a gafwyd, yn dal i gael eu buddsoddi.

Mae'r dull yma'n cael ei fonitro a'i reoli'n fanwl i sicrhau bod egwyddorion y polisi rheoli trysorlys yn cael eu cyflawni.

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Strwythur, trefn lywodraethol a threfn reoli

Mae QAA yn gwmni preifat, cyfyngedig drwy warant, ac mae wedi ei chofrestru fel elusen yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Dyma oedd pedwar aelod ein cwmni ar 31 Gorffennaf 2023:

- GuildHE Limited
- Prifysgolion yr Alban
- Prifysgolion y DU
- Prifysgolion Cymru.

Os bydd sefyllfa'n codi lle mae'r cwmni'n cael ei ddirwyn i ben, bydd atebolrwydd aelodau ein cwmni wedi ei gyfyngu i swm nad yw'n uwch na £1 i bob aelod.

Cawsom ein sefydlu o dan Femorandwm Cymdeithasu a chawn ein llywodraethu o dan ein Herthyglau Cymdeithasu, sy'n nodi ein cyfansoddiad a'n nodau.

Ym mis Chwefror 2023, adolygodd QAA ei nodau elusennol i adlewyrchu ei gwaith cynyddol ar draws y sector addysg drydyddol yn well. Am fod y cysyniad o ddysgu gydol oes yn llywio'r gwaith o lunio polisïau yng ngwledydd gwahanol y DU, daw'r gwahaniaeth rhwng addysg uwch ac addysg bellach yn llai amlwg, ac mae'r ddau sector yn cydweithio'n agosach. Newidiwyd yr Erthyglau Cymdeithasu i osgoi cyfyngu ar allu QAA i ymateb yn briodol i'r tirlun polisïau hwn sydd wrthi'n datblygu.

Dyma ein nodau:

- hybu a chynnal ansawdd a safonau mewn addysg drydyddol yn y DU a thu hwnt
- gwella'r dysgu a'r addysgu, a hybu a chanfod arloesedd ac arferion da mewn dysgu ac addysgu
- darparu gwybodaeth a chyhoeddi adroddiadau ar ansawdd a safonau mewn addysg drydyddol yn y DU a thu hwnt
- rhoi cyngor i lywodraethau, yn ôl y gofyn, ar gydnabod cyrsiau Mynediad i AU a chyngor mewn perthynas â phob un neu unrhyw un o'r nodau uchod.

Llywodraethu

Yn rhan o ymrwymiad parhaus QAA i arferion llywodraethu da ac arweinyddiaeth dda, mae aelodau'r Bwrdd wedi cwblhau archwiliad o'u sgiliau. Parheir i gynnal trafodaethau un-i-un blynyddol rhwng y Cadeirydd ac aelodau unigol o'r Bwrdd.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd hefyd wedi adolygu, ac wedi cymeradwyo lle bo'n briodol:

- trothwyon QAA o ran cymryd a chaniatáu risgiau
- strategaeth QAA ar gyfer 2023-27
- adroddiad yr adolygiad o QAA gan Gymdeithas Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch Ewrop (ENQA)
- newidiadau i Erthyglau Cymdeithasu QAA (mewn perthynas â diwygio'r nodau fel y maent wedi eu nodi uchod, diweddarau aelodaeth y Bwrdd fel y maent wedi eu nodi isod, a chaniatáu cynnal cyfarfodydd cyffredinol blynyddol naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb)
- Cod Arferion Da mewn Llywodraethu gan QAA
- nifer o bolisïau, yn cynnwys:
 - Gweithdrefn ar gyfer ymdrin â Chanmoliaeth, Sylwadau a Chwynion
 - Polisi Cynaliadwyedd a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol
 - Dull o Reoli Risgiau
 - Cynllun Awdurdodau Dirprwyedig, Rheoliadau Ariannol a Fframwaith Cydymffurfio.

Recriwtio a phenodi i'r Bwrdd

Cyfarwyddwyr ein Bwrdd yw ein hymddiriedolwyr hefyd, at ddibenion cyfraith elusennau. Adolygwyd yr Erthyglau Cymdeithasu i ganiatáu i'r Bwrdd gyfethol hyd at dri aelod arall er mwyn sicrhau bod ganddo'r ystod gyfan o sgiliau a phrofiad sy'n angenrheidiol i adlewyrchu natur gymhleth ac amrywiol y sector addysg drydyddol yn y DU a thramor. Erbyn hyn, mae'r Erthyglau'n caniatáu penodi hyd at 20 ymddiriedolwr, yn ôl y drefn ganlynol:

- Tymor mewn swydd o dair blynedd, gyda'r opsiwn o un tymor arall o dair blynedd:
 - enwebir tri aelod, ar y cyd gan y tri chorff cyllido ar gyfer addysg uwch y DU (Adran yr Economi yng Ngogledd Iwerddon, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido'r Alban), a'u penodi gan y Bwrdd
 - enwebir pedwar aelod, ar y cyd gan gyrrff cynrychioli sector addysg uwch y DU (GuildHE, Prifysgolion yr Alban, Prifysgolion y DU a Phrifysgolion Cymru), a'u penodi gan y Bwrdd
 - enwebir un aelod gan gorff cynrychioli'r colegau yn y DU, a'u penodi gan y Bwrdd
 - penodir chwe aelod annibynnol gan y Bwrdd
 - penodir un aelod annibynnol gan y Bwrdd, sy'n cymryd rhan yn gyfan gwbl neu'n bennaf, ar amser ei benodi/phenodi, yn y gwaith o reoli neu lywodraethu darparwr amgen sy'n cynnig addysg uwch
 - cyfetholir hyd at dri aelod arall gan y Bwrdd sy'n gallu cyfrannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o feysydd eraill y mae'r Bwrdd yn eu hystyried yn fanteisiol.
- Tymor mewn swydd o un flwyddyn, gyda'r opsiwn o un tymor arall o un flwyddyn:
 - penodir un aelod annibynnol gan y Bwrdd sydd, ar amser ei benodi/phenodi, yn fyfyrwr israddedig neu ôl-raddedig cofrestredig, yn swyddog undeb myfyrwyr, neu'n swyddog corff cynrychioli myfyrwyr a etholwyd o blith y myfyrwyr
 - enwebir un aelod gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a'i benodi/phenodi gan y Bwrdd.

Mae'r aelodau ar ein Bwrdd yn cynrychioli'r amrywiaeth yn sector addysg uwch y DU, gan gynnwys y myfyrwyr, gyda chymysgedd cyfoethog o sgiliau a phrofiad. Yn unol â gofynion ein Herthyglau, mae gan y chwe aelod annibynnol ar ein Bwrdd brofiad mewn materion diwydiannol, masnachol ac ariannol, neu arferion proffesiynol. Rydym yn hysbysebu swyddi gwag yn gyhoeddus i recriwtio ein haelodau annibynnol, yn dilyn asesu pa sgiliau yr ydym eu hangen ar ein Bwrdd. Mae ein Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau'n cynghori'r Bwrdd i sicrhau bod ein proses ddethol a phenodi'n deg ac yn eglur.

Mae aelodau ein Bwrdd i gyd yn gyfarwyddwyr anweithredol. Maent yn rhoi eu hamser i ni'n wirfoddol ac nid ydynt yn derbyn unrhyw daliadau neu fuddion gan yr elusen. Mae'r treuliau a hawliwyd gan aelodau ein Bwrdd yn ystod 2022-23 wedi eu cynnwys yn nodyn 10 ein datganiadau ariannol.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Mae prif gyfrifoldebau ein Bwrdd yn cynnwys:

- cymeradwyo ein cenhadaeth a'n gweledigaeth strategol, ein cynlluniau strategol, ein cyllidebau a chynlluniau blynyddol, a dangosyddion perfformiad allweddol
- sicrhau bod systemau o reolaeth ac atebolrwydd yn cael eu sefydlu a'u monitro
- sicrhau bod prosesau yn eu lle i fonitro a gwerthuso ein perfformiad a'n heffeithiolrwydd
- penodi'r Prif Weithredwr a rhoi trefniadau addas yn eu lle i fonitro ei pherfformiad/berfformiad
- gweithredu fel ein prif awdurdod ar faterion ariannol a busnes
- sicrhau ein bod yn cadw cyfrifon sy'n gywir ac yn briodol
- cymeradwyo ein hadroddiad blynyddol a'n datganiadau ariannol

- cymryd y cyfrifoldeb cyffredinol am ein hasedau, ein heiddo a'n hystâd.

Mae ein Bwrdd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am reoli'r elusen o ddydd i ddydd i'n Prif Weithredwr, yn unol â chynllun dirprwyo. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, cynghorir a chefnogir y Prif Weithredwr gan y Tîm Gweithredol a'r Uwch Dîm Rheoli ehangach.

Ymsefydlu aelodau newydd o'r Bwrdd

Mae aelodau'r Bwrdd sydd newydd eu penodi'n derbyn y dogfennau canlynol, ac maent yn llofnodi datganiad i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y dogfennau:

- Cyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau: *Yr Ymddiriedolwr Hanfodol a'r Cod Llywodraethu i Elusennau*
- Cyhoeddiad Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban: *Guidance and Good Practice for Charity Trustees*
- Cyhoeddiad QAA: *Cod Arferion Da mewn Llywodraethu* (sy'n cynnwys canllawiau am ymddygiad moesegol, dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol, ac arferion llywodraethu da).

Mae pob aelod newydd o'r Bwrdd yn derbyn rhaglen ymsefydlu unigol o gyfarfodydd gyda'r Cadeirydd a staff uwch. Mae hyn yn eu cyflwyno i QAA, ein trefnau llywodraethu a gweithredu a'n cynlluniau strategol. Mae ein Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol (Ysgrifennydd ein Cwmni) ac Ysgrifennydd Cynorthwyol ein Cwmni ar gael i gefnogi aelodau'r Bwrdd i gyflawni eu dyletswyddau statudol, gan ddarparu cyngor a chyfarwyddyd fel y bo'r gofyn.

Gweithgareddau aelodau'r Bwrdd

Mae blwyddyn nodweddiadol un o aelodau ein Bwrdd yn debygol o gynnwys mynd i:

- bedwar cyfarfod Bwrdd (un diwrnod i bob cyfarfod)
- 'ddiwrnod allan' strategol
- gynhadledd flynyddol QAA
- mynd i gyfarfodydd pwyllgorau a gweithgorau a gynhelir i bwrpasau penodol (fel y bo'n ofynnol).

Cynhelir cyfarfod wyneb yn wyneb y Bwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn fel arfer; gallai eraill gael eu cynnal ar-lein. Cynhelir cyfarfodydd pwyllgorau ar-lein fel arfer.

Yn ogystal, efallai bod gan aelodau ein Bwrdd gyfrifoldeb am faes penodol, a'u bod yn gweithio gyda staff i ddarparu cyngor a chefnogaeth, a fydd yn eu tro'n gwella dealltwriaeth a gwaith craffu'r Bwrdd.

Yn ystod blwyddyn 2022-23, y presenoldeb cyfartalog yng nghyfarfodydd y Bwrdd oedd 95% (93% yn 2021-22). Dyma oedd cyfraddau presenoldeb aelodau unigol y Bwrdd:

Enw	Y presenoldeb yn 2022-23 (allan o bedwar cyfarfod)
Nic Beech	4
Fazal Dad	2 (o'r 2 a gynhaliwyd)
Vanessa Davies	4
Phil Deans	2 (o'r 2 a gynhaliwyd)
Sara Drake	4
Linda Duncan	2 (o'r 2 a gynhaliwyd)
Chloe Field	2
Alex Fraser	2 (o'r 2 a gynhaliwyd)
Simon Gaskell (Cadeirydd)	4
Rachid Hourizi	4
Odette Hutchinson	1 (o'r 1 a gynhaliwyd)
David Jones	2 (o'r 3 a gynhaliwyd)
Angela Joyce	3 (o'r 3 a gynhaliwyd)
Xenia Leventis	3
Karl Leydecker	4
Sue Rigby	3
John Sawkins	4
Oliver Turnbull	4
Peter Vermeulen	2 (o'r 2 a gynhaliwyd)
Craig Watkins	4
Philip Wilson	4
Tim Woods	4

Sicrhawyd cworwm ymhob cyfarfod, fel y mae'r cworwm wedi ei ddisgrifio yn ein Herthyglau Cymdeithasu.

Pwyllgorau'r Bwrdd

Cynhaliwyd wyth pwyllgor y Bwrdd yn ystod y flwyddyn 2022-23, yn ogystal â'r Bwrdd Ymgynghorol sy'n dod ag uwch randdeiliaid at ei gilydd o'r sector addysg drydyddol. Mae gan bob un o'r pwyllgorau gylch gwaith penodol, ac mae'r Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau'n derbyn adroddiad am gyfranogaeth aelodau'r Bwrdd yng nghyfarfodydd y pwyllgorau.

Materion corfforaethol:

- Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau
- Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau

Cynghorol:

- Y Pwyllgor Cynghori ar Strategaeth QAA Cymru
- Y Pwyllgor Cynghori ar Strategaeth QAA Scotland
- Y Pwyllgor Myfyrwyr i Gynghori ar Strategaeth
- Y Bwrdd Ymgynghorol

Gweithredol:

- Pwyllgor Cydnabod a Thrwyddedu Mynediad i AU
- Pwyllgor Cynghori ar bwerau dyfarnu graddau
- Pwyllgor y Corff Sicrhau Ansawdd Dynodedig (hyd 31 Mawrth 2023)

Bwrdd Cyfarwyddwyr QAA

Rhwng 1 Awst 2022 a 31 Gorffennaf 2023, gwasanaethodd yr unigolion canlynol fel cyfarwyddwyr neu ymddiriedolwyr ar Fwrdd QAA:

Aelodau annibynnol

Yr Athro Simon Gaskell (Cadeirydd)	Cyn-lywydd a Chyn-bennaeth Prifysgol y Frenhines Mary, Prifysgol Llundain (a benodwyd ym mis Mawrth 2019)
Dr Vanessa Davies	Cyn-gyfarwyddwr Cyffredinol, Bwrdd Safonau'r Bar (a benodwyd ym mis Rhagfyr 2017)
Ms Sara Drake	Prif Weithredwr, ICSA (a benodwyd ym mis Ionawr 2018)
Ms Linda Duncan (Trysorydd Mygedol/Is-gadeirydd)	Prif Weithredwr, Consortiwm Blue Star (a benodwyd ym mis Mawrth 2017, ac a oedd yn y swydd hyd fis Mawrth 2023)
Yr Athro Rachid Hourizi	Cyfarwyddwr yr Institute of Coding, Prifysgol Caerfaddon (a benodwyd ym mis Mawrth 2022)
Mr Craig Watkins	Prif Weithredwr a Rheolwr Gyfarwyddwr Kantar Public UK (a benodwyd ym mis Rhagfyr 2017)
Mr Peter Vermeulen (Trysorydd Mygedol)	Prif Swyddog Cyllid, Prifysgol Bryste (a benodwyd ym mis Mawrth 2023)

Aelod annibynnol: darparwr amgen

Yr Athro Philip Wilson	Cyn-gadeirydd mwyaf diweddar, Independent HE (a benodwyd ym mis Mehefin 2017, ac a oedd yn y swydd hyd fis Mehefin 2023)
Mr Alex Fraser	Prif Weithredwr Sefydliad Bancio a Chyllid Llundain (a benodwyd ym mis Mehefin 2023)

Aelod annibynnol: myfyriwr

Ms Sophia Xenia Levantis	Myfyriwr PhD ym Mhrifysgol Bryste (a benodwyd ym mis Hydref 2022)
--------------------------	--

Penodwyd ar y cyd gan GuildHE Limited, Prifysgolion yr Alban, Prifysgolion y DU a Phrifysgolion Cymru

Yr Athro Maria Hinfelaar	Is-Ganghellor Prifysgol Glyndŵr (a benodwyd ym mis Medi 2016, ac a oedd yn y swydd hyd fis Medi 2022)
Yr Athro Karl Leydecker	Uwch-Is-Bennaeth Prifysgol Aberdeen (a benodwyd ym mis Mehefin 2022)

Yr Athro Sue Rigby	Is-Ganghellor Prifysgol Sba Caerfaddon (a benodwyd ym mis Hydref 2019)
Yr Athro Nic Beech	Is-Ganghellor Prifysgol Middlesex (a benodwyd ym mis Medi 2021)
Yr Athro Tim Woods	Dirprwy Is-Ganghellor Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth (a benodwyd ym mis Hydref 2022)

Penodwyd ar y cyd gan Adran yr Economi yng Ngogledd Iwerddon, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido'r Alban

Yr Athro David Jones	Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Myfyrwyr), Athro mewn Gwyddor Bioddeunyddiau, Prifysgol y Frenhines, Belfast (a benodwyd ym mis Hydref 2020, ac a oedd yn y swydd hyd fis Mehefin 2023)
Yr Athro John Sawkins	Dirprwy Bennaeth (Addysg a Bywyd Myfyrwyr), Athro mewn Economeg, Prifysgol Heriot-Watt (a benodwyd ym mis Hydref 2019)
Yr Athro Oliver Turnbull	Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu ac Addysgu), Athro mewn Niwroseicoleg, Prifysgol Bangor (a benodwyd ym mis Medi 2019)
Yr Athro Odette Hutchinson	Dirprwy Is-Ganghellor, Prifysgol Ulster (a benodwyd ym mis Mehefin 2023)

Enwebwyd gan Gymdeithas y Colegau

Ms Angela Joyce	Prif Weithredwr Grŵp Colegau Swydd Warwick (a benodwyd ym mis Hydref 2019, ac a oedd yn y swydd hyd fis Mawrth 2023)
Dr Fazal Dad	Pennaeth a Phrif Weithredwr Coleg Blackburn (a benodwyd ym mis Mawrth 2023)

Enwebwyd gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr

Miss Chloe Field	Is-lywydd (Addysg Uwch) UCM (a benodwyd ym mis Gorffennaf 2022)
------------------	--

Aelod cyfetholedig

Yr Athro Phil Deans	Llywydd Prifysgol Ryngwladol Americanaidd Richmond yn Llundain (a benodwyd ym mis Mawrth 2023)
---------------------	---

Y strwythur cyfundrefnol

Dyma oedd ein Tîm Gweithredol yn ystod y flwyddyn 2022-23:

- Vicki Stott, Prif Weithredwr
- Caroline Blackburn, Cyfarwyddwr Cyllid
- Alastair Delaney, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau
- Tom Yates, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol

Cefnogir y Tîm Gweithredol gan yr Uwch Dîm Rheoli ehangach.

Taliadau a chyflogau

Mae ein Pwyllgor Penodiadau a Chyflogau'n cynghori'r Bwrdd ar berfformiad y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol, ac ar daliadau diswyddo a chyflogau priodol. Wrth gynghori ar osod cyflog y Prif Weithredwr a'r Tîm Gweithredol, mae'r Pwyllgor yn cymryd i ystyriaeth y sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol ar gyfer pob un o'r rolau, a'r tâl mewn sectorau y byddai modd canfod ymgeiswyr addas ynddynt ar gyfer swyddi o'r fath. Mae'r cyflogau ar gyfer gwahanol swyddi'n cael eu dilysu'n wrthrychol, gan ddefnyddio cymaryddion o'r sector cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys edrych ar ddata o arolygon cyflogau i weld rolau cymaradwy o nifer o sectorau, gan gynnwys elusennau, sefydliadau addysg uwch a sefydliadau yn yr ardal leol. Mae codiadau cyflog i'r holl gydweithwyr yn cael eu trafod rhwng y Tîm Gweithredol, y Tîm Adnoddau Dynol ac Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol.

Cynaliadwyedd a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol

Mae QAA wedi ei hymrwymo i weithio mewn ffordd foesebol sy'n gyfrifol yn gymdeithasol ymhob maes o'n busnes. Mae ein gwaith yn diogelu safonau ac yn gwella ansawdd addysg uwch y DU, lle bynnag y mae'n cael ei darparu ledled y byd. Mae ein dull o weithredu busnes yn cymryd i ystyriaeth effaith ein gwaith ar yr amgylchedd, ein staff, ein cyflenwyr, ein cymunedau lleol, y sector addysg uwch, a'r gymdeithas ehangach. Mae ein Polisi Cynaliadwyedd a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol diweddaraf (yn weithredol o 2023) yn nodi ein hamcanion a'r gweithgareddau a wnawn i'w cefnogi, a'r ffordd y mae QAA yn cefnogi Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, sef:

- cynnal diwylliant busnes a dull o wneud ein gwaith sy'n foesebol ac yn eglur
- gostwng ein heffaith negyddol ar yr amgylchedd
- cyfrannu at ddatblygiad ein cymunedau
- parchu ein cydweithwyr a'u hannog i'w datblygu.

Mae ein perfformiad a'n heffaith yn cael eu monitro gan ein Pwyllgor Cynaliadwyedd a Chyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol, sy'n adrodd i'r Uwch Dîm Rheoli, a gan Bwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau ein Bwrdd.

Diogelu data

Ni chofnodwyd unrhyw ddigwyddiadau yn ymwneud â data personol yn ystod 2022-23.

Gweithgareddau codi arian

Ni chynhaliodd yr elusen unrhyw weithgareddau codi arian yr oedd gofyn eu datgelu o dan S162A Deddf Elusennau 2011.

Datganiad cydraddoldeb

Rydym yn cydnabod bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn dod â manteision mawr, ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd, cynhyrchion a gwasanaethau, ochr yn ochr â'n hymrwymiad ehangach i sicrhau ansawdd, sy'n hybu amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant. Rydym yn dangos hyn yn ein polisiau mewnol a'n harferion gweithio. Rydym hefyd yn ei ymgorffori yn ein gwaith, am fod cydraddoldeb yn rhan annatod o'n dull o sicrhau a gwella ansawdd. Mae

cydraddoldeb yn elfen allweddol o'n syniad o brofiad addysgol o safon uchel a'r disgwyliadau y mae hawl gan fyfyrwyr eu cael am ddarparwyr addysg uwch y DU.

Mae gan y Tîm Adnoddau Dynol a Datblygiad Cyfundrefnol gyfrifoldeb strategol am ddatblygiad cyfundrefnol, yn cynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae ein gwaith o hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn mynd rhagddo'n barhaus, ac rydym yn adolygu ein polisiâu a'n harferion mewnol perthnasol yn rheolaidd. Rydym yn cynnal arolwg blynyddol, y gwahoddir ein holl gydweithwyr i gymryd rhan ynddo, sy'n canolbwyntio ar ddemograffeg yr Asiantaeth ac sy'n ein helpu i ganfod gwelliannau angenrheidiol a phenderfynu ar y camau i'w cymryd yn y dyfodol.

Gweithio er budd y cyhoedd

O dan Ddeddf Elusennau 2011, mae dyletswydd arnom i roi adroddiad am y budd cyhoeddus a ddarparwn. Mae ein hymddiriedolwyr yn ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ar y budd cyhoeddus - y rhoddir crynodeb ohono i aelodau ein Bwrdd wrth eu penodi - ac mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon bod ein gwaith i gefnogi sector addysg drydyddol y DU - sy'n cynnwys helpu i ddarparu mynediad i addysg uwch i nifer fawr o fyfyrwyr a gweithio'n fwy cyffredinol er budd y myfyrwyr - yn bodloni'r gofynion sydd arnom ni o ran y budd cyhoeddus.

Hysbysiad am gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Mae QAA yn parhau i gryfhau ei hymrwymiad i'r Gymraeg, fel sydd wedi ei nodi yn yr Hysbysiad am gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg y mae dyletswydd ar QAA i gydymffurfio â nhw. Mae QAA yn parhau i gynhyrchu adroddiadau blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg sy'n nodi sut, ac i ba raddau, y mae'r Asiantaeth yn cydymffurfio â'r gofynion sydd arni, yn ogystal â nodi camau i'w cymryd i gydymffurfio'n well. Mae'r adroddiadau'n cael eu hystyried gan Weithgor y Gymraeg traws-sefydliadol QAA a'u cymeradwyo gan ei Phwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau.

Y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG)

Mae cydymffurfio â'r ESG yn sylfaenol i QAA, nid yn unig fel sail i'w holl waith yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a'i gwaith yn Lloegr, drwy ei model aelodaeth, ond hefyd i'r athroniaeth sylfaenol o sicrhau ansawdd yn gydweithredol o dan arweiniad cymheiriaid sy'n tanategu diben craidd QAA.

Canfu'r adolygiad a gafwyd gan Gymdeithas Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch Ewrop (ENQA) ym mis Mawrth 2023 fod QAA yn cydymffurfio â'r ESG.

Perthynas gyda phartion cysylltiedig

Mae is-gwmni QAA - QAA Enterprises Limited - yn gwmni preifat, cyfyngedig drwy gyfrannau, ac mae wedi ei reoli gan ei Erthyglau Cymdeithasu ei hun sy'n nodi ei gyfansoddiad. Ym mis Rhagfyr 2021, cytunwyd y byddai QAA Enterprises yn gostwng ei weithgareddau i lefel isel iawn, gyda'r opsiwn o ddod yn gwmni segur yn y dyfodol.

Wrth eu penodi, mae pob aelod o Fwrdd QAA yn cwblhau datganiad o fuddiannau a pherthynas gyda phartion cysylltiedig, sy'n cael ei ddiweddarau bob blwyddyn, a chofnodir unrhyw wrthdrawiadau buddiannau yng nghofnodion pob cyfarfod.

Y prif risgiau a'r prif feysydd o ansicrwydd

Ein Bwrdd sy'n gyfrifol yn y pen draw am ein dull o reoli risgiau, sydd wedi ei ddisgrifio yn ein polisi rheoli risgiau. Rydym yn cofnodi risgiau strategol yn ein cofrestr o risgiau strategol, ac rydym yn cofnodi risgiau gweithredol yn ein cofrestrau o risgiau gweithredol, neu yng nghofrestrau penodol y prosiectau neu'r gweithgareddau y mae'r risgiau'n ymwneud â nhw.

Adolygir y gofrestr o risgiau strategol gan ein Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risgiau ymhob un o'i gyfarfodydd, ac ymhob un o gyfarfodydd ein Bwrdd.

Dyma oedd rhai o'r risgiau a ystyriwyd yn sylweddol ar y cam 'risg cynhenid' (cyn ei leihau): risg o gael ei heithrio o'r Gofrestr Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd (EQAR) oherwydd nad yw'r dull rheoleiddio a ddefnyddir gan y Swyddfa Myfyrwyr yn Lloegr yn cydymffurfio â'r Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG); y risg y mae'r dull rheoleiddio hwn yn ei achosi i ddyfodol rôl y corff sicrhau ansawdd dynodedig yn Lloegr; a bygythiadau i seiberddiogelwch. Roedd y camau gweithredu a ystyriwyd i leihau'r ddau gyntaf o'r risgiau hynny'n cynnwys y rheiny a gymerwyd gan QAA yn y pendraw, sef cyhoeddi'n gyntaf y byddai QAA yn cymryd camau unochrog i sicrhau cydymffurfiad â'r ESG, ac yna ymadael â'r rôl fel y corff sicrhau ansawdd dynodedig yn y tymor hir. Roedd bygythiad i seiberddiogelwch yn dal i fod yn risg sylweddol hyd yn oed ar y cam 'risg gweddillol' (wedi ei leihau), er gwaethaf y camau gweithredu cynhwysfawr a gymerwyd i'w leihau sy'n cynnwys cwblhau archwiliad ISO27001 blynyddol, gwneud profion hacio'n gyfnodol, a chyflwyno technoleg prawf dilysu aml-factor ar draws yr Asiantaeth.

Mae'r Bwrdd yn fodlon bod risgiau a meysydd o ansicrwydd yn cael eu monitro a'u rheoli'n briodol.

Cyfeiriadau a manylion gweinyddol

Enw cofrestredig	Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch
Enwau eraill a ddefnyddir gan y cwmni	QAA, QAA Scotland
Rhif cofrestru'r cwmni	03344784 (Cymru a Lloegr)
Rhifau cofrestru'r elusen	1062746 (Cymru a Lloegr) SC037786 (Yr Alban)
Swyddfa gofrestredig a phrif swyddfa	Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Cyfeiriadau gweithredol	Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Ysgrifennydd y Cwmni	Tom Yates, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol
Yr uwch reolwr (sydd ag awdurdod dirprwyedig)	Vicki Stott, Prif Weithredwr
Bancwyr	HSBC Bank plc, The Cross, Caerloyw, GL1 2AP Lloyds Bank plc, 10 Gresham Street, Llundain, EC2V 7AE
Rheolwyr buddsoddiadau	Rathbones Investment Management Limited, 1 Curzon Street, Llundain, W1J 5FB Barclays Private Bank (Barclays Bank plc), 40-42 Queen Square, Bryste, BS1 4QP
Cyfreithwyr	Shakespeare Martineau, No 1 Colmore Square, Birmingham, B4 6AA
Archwilydd annibynnol	Crowe UK LLP, 4 ^{ydd} Llawr, St James House, St James Square, Cheltenham, GL50 3PR

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r cyfarwyddwyr

Mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys yr Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr, a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r *Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig* (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig).

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith cwmnïau bod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol am bob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith cwmnïau, ni chaiff yr ymddiriedolwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol heblaw eu bod yn fodlon bod y datganiadau'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y cwmni elusennol a'r grŵp, ac o adnoddau sy'n dod i mewn ac adnoddau a ddefnyddir, gan gynnwys incwm a gwariant, y grŵp elusennol ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae gofyn i'r ymddiriedolwyr:

- ddethol polisïau cyfrifyddu addas a'u gweithredu'n gyson
- gydymffurfio â'r dulliau a'r egwyddorion yn y *Datganiad o Arferion Cymeradwy i Elusennau*
- ffurfio beirniadaethau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth
- nodi a yw safonau cyfrifyddu perthnasol y DU wedi eu dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelir a'u hesbonio yn y datganiadau ariannol
- baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod hi'n amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i fod mewn busnes.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n ddigonol i dangos ac esbonio trafodion y cwmni elusennol, ac sy'n datgelu â chywirdeb rhesymol, ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol y cwmni elusennol, ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â: *Deddf Cwmnïau 2006*; *Deddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005*; *Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006* (fel y'u diwygiwyd); a darpariaethau cyfansoddiad yr elusen. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen a'r grŵp, ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac anghysonderau eraill.

Gwybodaeth i'r archwilydd

Mewn perthynas â phob un o'r unigolion oedd yn gyfarwyddwyr y cwmni ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn:

- cyn belled ag y bo pob un o gyfarwyddwyr y cwmni oedd â swydd ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn yn ymwybodol, nid oes gwybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad (sef gwybodaeth sy'n angenrheidiol os yw archwilydd y cwmni am baratoi'r adroddiad archwilio) nad yw archwilydd y cwmni'n ymwybodol ohoni
- mae pob un o'r cyfarwyddwyr wedi cymryd pob cam y dylai ef neu hi eu cymryd fel cyfarwyddwr i'w gwneud eu hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth sy'n berthnasol i'r archwiliad ac i sicrhau bod archwilydd y cwmni'n ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Yr archwilydd

Yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Rhagfyr 2023, cytunwyd ar gynnig i ailbenodi Crowe UK LLP yn archwilydd i'r cwmni.

Cymeradwywyd yr Adroddiad Strategol, Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 13 Rhagfyr 2023, a chawsent eu llofnodi ar ran y Bwrdd gan:

Yr Athro Simon Gaskell
Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr



Tom Yates
Ysgrifennydd y Cwmni



Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau ac Ymddiriedolwyr yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch

Ein barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (sef y 'rhiant-gwmni elusennol') a'i his-gwmnïau (y 'grŵp') ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023, sy'n cynnwys Datganiad o Weithgareddau Ariannol y Grŵp, Mantolenni'r Grŵp a'r Cwmni, Datganiad Llif Arian y Grŵp a'r nodiadau i gyd-fynd â'r datganiadau ariannol, gan gynnwys y polisiau cyfrifyddu perthnasol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, gan gynnwys *Safon Adrodd Ariannol 102*, y *Safon Adrodd Ariannol* sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (yr Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y grŵp a'r cwmni elusennol fel oeddent ar 31 Gorffennaf 2023 ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn i'r grŵp ac o'r defnydd a wnaed o'i adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben wedi hynny;
- wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi eu paratoi'n unol â gofynion *Deddf Cwmnïau 2006* a *Deddf Elusennau 2011*.

Sail ein barn

Gwnaethom ein gwaith archwilio yn unol â'r *Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU)* a'r gyfraith berthnasol. Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau o dan y safonau hynny yn adran ein hadroddiad am gyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol i'r grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith o archwilio'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys *Safonau Moesegol* y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credwn fod y dystiolaeth a gawsom o'r archwiliad yn ddigonol ac yn briodol i fod yn sail ar gyfer ein barn.

Casgliadau mewn perthynas â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, daethom i'r casgliad bod y defnydd a wneir gan yr ymddiriedolwyr o'r dull cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn ddefnydd priodol.

Ar sail y gwaith yr ydym wedi ei wneud, nid ydym wedi canfod unrhyw feysydd o ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, achosi amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Mae ein cyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes gweithredol wedi eu disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol, heblaw'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad archwilydd arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrhau arnynt, ac eithrio i'r graddau a nodwyd yn eglur fel arall yn ein hadroddiad.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn faterol wahanol i'r datganiadau ariannol neu i'r wybodaeth a gawsom yn ystod yr archwiliad neu'n ymddangos ei bod wedi ei cham-ddatgan yn faterol mewn unrhyw ffordd arall. Os byddwn yn canfod unrhyw anghysondeb sylweddol neu unrhyw gamddatganiad sylweddol ymddangosiadol o'r fath,

mae gofyn i ni benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad sylweddol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os down i'r casgliad, ar sail y gwaith a wnaethom, bod camddatganiad sylweddol yn yr wybodaeth arall yma, mae'n rhaid i ni roi gwybod am y hynny.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â hyn.

Barn am faterion eraill a ragnodir gan *Ddeddf Cwmnïau 2006*

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a wnaethpwyd yn ystod ein harchwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn adroddiad yr ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys adroddiad y cyfarwyddwyr a baratowyd at ddibenion cyfraith cwmnïau, ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol amdanynt, yn gyson gyda'r datganiadau ariannol; ac
- mae adroddiad y cyfarwyddwyr sy'n rhan o adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi eu paratoi'n unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

Materion y mae gofyn i ni adrodd arnynt drwy eithriad

O ystyried yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddysgwyd am y grŵp a'r cwmni elusennol a'u hamgylchedd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi canfod unrhyw gamddatganiadau sylweddol yn adroddiad y cyfarwyddwyr sy'n rhan o adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion a ganlyn y mae *Deddf Cwmnïau 2006* yn gofyn ein bod yn adrodd amdanynt i chi os, yn ein barn ni:

- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan y rhiant-gwmni elusennol; neu os
- nad yw datganiadau ariannol y rhiant-gwmni elusennol yn cyfateb gyda'r cofnodion cyfrifyddu a'r adroddiad blynyddol; neu os
- na wneir datgeliadau penodol am gyflogau'r ymddiriedolwyr y mae gofyn eu gwneud yn gyfreithiol; neu os
- nid ydym wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau yr ydym eu hangen ar gyfer ein gwaith archwilio.

Cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr

Fel sydd wedi ei esbonio'n llawnach yn y datganiad o gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr sydd i'w gael ar tudalen 28, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr y cwmni elusennol at ddibenion cyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am eu bodloni eu hunain eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac maent hefyd yn gyfrifol am reolaeth fewnol o'r math sydd wedi ei farnu'n angenrheidiol gan yr ymddiriedolwyr er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol sydd heb unrhyw gamddatganiad sylweddol ynddynt, p'un a yw hynny oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a'r defnydd a wneir o'r dull cyfrifyddu ar sail busnes gweithredol heblaw bod yr ymddiriedolwyr naill ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i'w weithredoedd, neu os nad oes ganddynt unrhyw opsiwn realistig arall heblaw gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol nad oes gan y datganiadau ariannol cyfan unrhyw gamddatganiad sylweddol, p'un a yw hynny wedi ei achosi gan dwyll neu wall, a chynhyrchu adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn ni. Mae sicrwydd rhesymol yn sicrhad lefel uchel, ond nid yw'n gwarantu bod archwiliad a wneir yn unol â'r *Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU)* yn canfod camddatganiad sylweddol bob tro pan mae un i'w gael. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac fe'u hystyriar yn faterol berthnasol os gellir disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu ar y cyd, ddylanwadu ar y penderfyniadau a wneir gan ddefnyddwyr ar faterion economaidd ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Mae angen cynllunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau sylweddol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Manylir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Cawsom ddealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r cwmni a'r grŵp elusennol yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar bennu symiau a datgeliadau perthnasol yn y datganiadau ariannol. Dyma'r cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn: Deddf Cwmnïau 2006, Deddf Elusennau 2011, Rheoliadau Elusennau (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008; Safon Adrodd Ariannol 102, a'r Datganiad o Arferion Cymeradwy i Elusennau (102) (a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2019). Yn ogystal, ystyriwyd darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau eraill nad ydynt yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol ond y gallai cydymffurfiaeth â hwy fod yn sylfaenol i allu'r elusen i weithredu neu i osgoi cosb berthnasol. Ystyriwyd hefyd y cyfleoedd a'r cymhellion a all fodoli o fewn yr elusen a'r grŵp ar gyfer twyll. Dyma'r cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn ar gyfer gweithrediadau yn y DU: *Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017*, y *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol* (RhDDC), y *ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch a'r ddeddfwriaeth cyflogaeth*.

Nodwyd gennym y byddai'r risg fwyaf o effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol yn sgil afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn perthyn i amseriad cydnabod incwm a diystyru rheolaethau gan reolwyr. Cynlluniwyd ein gweithdrefnau archwilio i ymateb i'r risgiau hyn ynghylch incwm. Mewn perthynas â rheolwyr yn diystyru trefnau rheoli, cynhaliom ymholiadau ymhlith rheolwyr am eu gwaith eu hunain i ganfod ac asesu risgiau afreoleidd-dra, profi samplau o gyflwyniad dyddlyfrau, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu am ragfarnau, adolygu gohebiaeth reoleiddiol â'r Comisiwn Elusennau, CThEM a chyrrff rheoleiddio eraill, gan gynnwys â'r Swyddfa Myfyrwyr yn Lloegr a Swyddfa Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban, yn ogystal â darllen cofnodion cyfarfodydd y rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu.


Oherwydd cyfyngiadau cynhenid unrhyw archwiliad, mae yna risg na ellir ei hosgoi na fyddwn efallai wedi canfod rhai camddatganiadau sylweddol yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn unol â'r safonau archwilio. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfiaeth ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfiaeth â'r holl gyfreithiau a rheoliadau.

Mae'r cyfyngiadau cynhenid hyn yn arbennig o arwyddocaol yn achos camddatganiad o ganlyniad i dwyll, gan y gallai hyn gynnwys cynlluniau soffistigedig sydd wedi eu cynllunio i osgoi cael eu canfod, gan gynnwys methiant bwriadol i gofnodi trafodion, cyd-dwylo neu roi gwybodaeth gamarweiniol yn fwriadol.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau o ran archwilio'r datganiadau ariannol i'w gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol ar: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n Hadroddiad Archwilydd.

Pwrpas ein hadroddiad

Rhoddir yr adroddiad hwn i aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 rhan 16 *Deddf Cwmnïau 2006*. Gwnaethpwyd ein gwaith archwilio fel bod modd i ni ddatgan i aelodau ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol arnom eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd, ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb, nac yn tybio bod cyfrifoldeb gan unrhyw un arall, heblaw'r cwmni elusennol, aelodau'r cwmni elusennol fel corff, ac ymddiriedolwyr y cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, neu ar gyfer y farn yr ydym wedi ei ffurfio.



Tara Westcott
Archwilydd Statudol Uwch

Ar gyfer ac ar ran

Crowe U.K. LLP
Statutory Auditor
St James House
St James Square
Cheltenham
GL50 3PR

Dyddiad: 13 Rhagfyr 2023

Datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol (yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant cyfunol) ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023

	Nodiadau	2023 £	2022 £
		Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd anghyfyngedig
Yr incwm o:			
Weithgareddau elusennol	5	9,880,503	9,630,938
Weithgareddau masnachol eraill	3	–	4,435
Fuddsoddiadau	4	229,640	152,912
Cyfanswm yr incwm		10,110,143	9,788,285
Y gwariant ar:			
Gostau masnachu yn ymwneud â chodi arian		1,448	293
Gostau rheoli buddsoddiadau		11,756	10,497
Codi arian		13,204	10,790
Gweithgareddau elusennol	6, 7	9,457,004	11,695,409
Cyfanswm y gwariant		9,470,208	11,706,199
(Colledion net) ar fuddsoddiadau		(82,183)	(284,753)
Yr incwm net a'r symudiad net yn y cronfeydd ar gyfer y flwyddyn	8	557,752	(2,202,667)
Cysoni'r cronfeydd			
Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen		2,532,834	4,735,501
Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen	22	3,090,586	2,532,834

Mae'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn cynnwys yr holl enillion a'r holl golledion a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r holl incwm a'r holl wariant yn dod o weithgareddau parhaus.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 37 i 63 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Y mantolenni ar 31 Gorffennaf 2023

(Rhif cwmni: 03344784)

	Nodiadau	Y Grŵp		Yr Elusen	
		2023	2022	2023	2022
		£	£	£	£
Yr asedau sefydlog:					
Asedau anniriaethol sefydlog	12	132,937	175,858	132,937	175,858
Asedau diriaethol	13	64,386	100,837	64,386	100,837
Buddsoddiadau	14	6,016,331	5,922,837	6,016,332	5,922,837
Cyfanswm yr asedau sefydlog		6,213,654	6,199,532	6,213,655	6,199,532
Yr asedau cyfredol:					
Dyledwyr	15	2,110,857	3,376,532	2,110,857	3,379,108
Arian parod yn y banc ac mewn llaw		3,677,367	4,296,128	3,674,164	4,290,712
Cyfanswm yr asedau cyfredol		5,788,224	7,672,660	5,785,021	7,669,820
Y rhwymedigaethau:					
Credydwyr - symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	16	(5,809,462)	(7,850,009)	(5,808,060)	(7,849,409)
Yr asedau cyfredol net		(21,238)	(177,349)	(23,039)	(179,589)
Cyfanswm yr asedau wedi tynnu rhwymedigaethau cyfredol					
		6,192,416	6,022,183	6,190,616	6,019,943
Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau	20	(421,069)	(147,525)	(421,069)	(147,525)
Rhwymedigaeth o ran darpariaeth pensiynau	21	(2,680,761)	(3,341,824)	(2,680,762)	(3,341,824)
Cyfanswm yr asedau net		3,090,586	2,532,834	3,088,785	2,530,594
Cronfeydd y grŵp a'r elusen:					
Cronfeydd dynodedig	22	391,721	802,694	391,721	802,694
Cronfeydd cyffredinol	22	2,698,865	1,730,140	2,697,064	1,727,900
Cyfanswm y cronfeydd ar 31 Gorffennaf 2023		3,090,586	2,532,834	3,088,785	2,530,594

Y gwaged ar gyfer y flwyddyn ariannol a dderbyniodd sylw yn natganiad ariannol y rhiant-elusen oedd £558,191 (2022: diffyg o £2,204,234).

Mae'r nodiadau ar dudalennau 37 i 63 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Cymeradwywyd ac awdurdodwyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 13 Rhagfyr 2023 a chawsent eu llofnodi ar ran y Bwrdd gan:

Yr Athro Simon Gaskell, Cadeirydd y Bwrdd Cyfarwyddwyr



Y datganiad llif arian ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023

	Nodiadau	Y Grŵp		Yr Elusen	
		2023	2022	2023	2022
		£	£	£	£
Llif arian o weithgareddau gweithredu:					
Arian parod net a ddarparwyd gan weithgareddau gweithredu	24	(655,227)	1,255,566	(653,014)	1,306,198
Llif arian o weithgareddau buddsoddi:					
Incwm o fuddsoddiadau		229,640	152,912	229,640	152,912
Enillion o werthu buddsoddiadau		7,920	5,046	7,920	5,046
Prynu buddsoddiadau		(694,696)	(618,183)	(694,696)	(618,183)
Prynu asedau anniriaethol sefydlog		(5,850)	(156,771)	(5,850)	(156,771)
Prynu asedau diriaethol sefydlog		(11,645)	(75,579)	(11,645)	(75,579)
Yr arian parod net (a ddefnyddiwyd ar gyfer)/ a ddarparwyd gan weithgareddau buddsoddi		(474,631)	(693,575)	(474,631)	(693,576)
Newid mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y flwyddyn		(1,129,858)	561,991	(1,127,645)	612,623
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r flwyddyn		4,807,232	4,245,241	4,801,816	4,189,193
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y flwyddyn	25	3,677,374	4,807,232	3,674,171	4,801,816

Mae'r nodiadau ar dudalennau 37 i 63 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Gorffennaf 2023

1 Y statws cyfreithiol

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA) yn gwmni elusennol, cyfyngedig drwy warant. Mae QAA wedi ei chofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr (rhif cofrestru: 1062746) a gyda Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban (rhif cofrestru: SC037786). Corfforaethwyd yr elusen yn gwmni cyfyngedig drwy warant gyda Thŷ'r Cwmnïau yng Nghymru a Lloegr (rhif cofrestru: 03344784). Ei swyddfa gofrestredig a phrif swyddfa yw Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB.

2 Y polisiau cyfrifyddu

Deddf Cwmnïau 2006. Yn unol â gofynion *Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006* (fel y'u diwygiwyd), cynhwyswyd datganiad llif arian ar gyfer yr elusen.

a Beirniadaethau a ffynonellau allweddol o ansicrwydd ynglŷn ag amcangyfrif

I baratoi'r datganiadau ariannol mae angen i'r rheolwyr wneud beirniadaethau, amcangyfrifon a thybjaethau sy'n effeithio ar y symiau a nodir ar gyfer asedau a rhwymedigaethau ar ddyddiad y fantolen a'r symiau a adroddwyd ar gyfer enillion a threuliau yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, oherwydd natur y broses o amcangyfrif, gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Mae'r beirniadaethau a phrif ffynonellau'r ansicrwydd ynglŷn ag amcangyfrif sydd wedi cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabuwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cynnwys gyda'r polisi cyfrifyddu perthnasol isod.

Mae maint y dibrisiad blynyddol ar gyfer yr asedau diriaethol yn sensitif i newidiadau yn y rhagolygon am faint o amser y bydd yr asedau'n economaidd ddefnyddiol a gwerth gweddilliol yr asedau. Mae oes economaidd ddefnyddiol a gwerth gweddilliol yr asedau'n cael eu hail asesu'n flynyddol. Bydd y rhain yn cael eu haddasu pan fo raid i adlewyrchu amcangyfrifon cyfredol, ar sail datblygiadau technolegol, buddsoddiadau yn y dyfodol, defnydd economaidd a chyflwr ffisegol yr asedau. Gwelwch nodyn 13 i ganfod swm yr asedau diriaethol i'w ddwyn ymlaen.

Cyfrifir y diffyg yn y cynllun buddion diffiniedig drwy amcangyfrif gwerth net cyfredol y rhwymedigaeth am gyfraniadau sy'n angenrheidiol i ariannu'r cynllun adfer yn y dyfodol. Wrth gyfrifo gwerth y rhwymedigaeth, mae'r cyfarwyddwyr wedi gwneud amcangyfrifon ynghylch newidiadau mewn lefelau staffio, newidiadau mewn cyflogau a chyfraddau disgownt yn y dyfodol.

b Cyfrifyddu cronfeydd

Y cronfeydd anghyfyngedig yw'r adnoddau sy'n dod i mewn a dderbyniwyd neu a gynhyrchwyd ar gyfer eu gwario ar nodau cyffredinol QAA. Y cronfeydd dynodedig yw cronfeydd anghyfyngedig yr elusen sydd wedi eu neilltuo gan yr ymddiriedolwyr i ariannu gweithgareddau penodol yr elusen yn y dyfodol.

c Incwm

Ariennir gweithgareddau QAA yn bennaf drwy gcontractau gyda'r cyrff cyllido addysg uwch a'r llywodraethau yn y DU, a thrwy danysgrifiadau gan sefydliadau addysg uwch; nid yw'n creu incwm drwy godi arian. Rhoddir cyfrif am yr holl incwm pan fo gan yr elusen hawl i'r cronfeydd, pan fo unrhyw faterion perfformiad sy'n berthnasol i'r eitem(au) incwm wedi eu cyflawni, pan fo'n debygol y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn a phan fo modd mesur maint yr incwm mewn ffordd ddibynadwy.

2 Y polisiau cyfrifyddu (parhad)

d Gwariant a'r sail ar gyfer dyrannu costau

Rhodddwyd cyfrif am yr holl wariant ar sail croniadau ac mae wedi cael ei gofnodi fel gwariant y gellir ei briodoli i un o ddau gategori - 'codi arian' (sef cost rheoli buddsoddiadau'r elusen a'r costau masnachu yn ymwneud â chodi arian a wnaethpwyd gan yr is-gwmni) a 'gweithgareddau elusenol' fel y gwelwch yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Dim ond pan fo'n angenrheidiol y gall taliadau diswyddo neu derfynu contract ddigwydd a rhoddir cyfrif am y rhain ar sail croniadau pan roddir ymrwymiad i derfynu swydd ar sail diswyddo staff neu derfynu eu contract. Rhennir y gweithgareddau elusenol ymhellach yn bedwar amcan strategol yr elusen. O fewn y 'gweithgareddau elusenol', ystyrir y gwariant yn 'gostau uniongyrchol' neu 'gostau cefnogi' fel y gwelwch yn y nodyn ar 'gyfanswm y gwariant elusenol'.

Cafodd nifer y staff a chostau'r staff eu dyrannu naill ai:

- yn uniongyrchol i un neu fwy o'r tri gweithgaredd elusenol fel 'costau uniongyrchol', **neu**
- yn uniongyrchol i gostau llywodraethu fel 'costau cefnogi', **neu**
- eu dosrannu i'r tri gweithgaredd elusenol a'r costau llywodraethu fel 'costau cefnogi' gan ddefnyddio nifer y staff sydd wedi eu priodoli'n barod i'r gweithgareddau hynny.

Cafodd costau nad ydynt yn ymwneud â chyflog eu dyrannu naill ai:

- yn uniongyrchol i un neu fwy o'r tri gweithgaredd elusenol fel 'costau uniongyrchol', **neu**
- yn uniongyrchol i gostau llywodraethu fel 'costau uniongyrchol' neu 'gostau cefnogi', **neu**
- eu dosrannu i'r tri gweithgaredd elusenol a'r costau llywodraethu fel 'costau cefnogi' gan ddefnyddio nifer y staff sydd wedi eu priodoli'n barod i'r gweithgareddau hynny.

Mae costau llywodraethu'n cynnwys costau bodloni gofynion cyfansoddiadol a statudol, megis ffioedd archwilio, costau cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr a threuliau'r ymddiriedolwyr, a ffioedd cyfreithiol. Mae'r costau staffio a'r costau swyddfa sy'n gysylltiedig â chostau o'r fath wedi eu cynnwys mewn costau cefnogi. Yna caiff costau llywodraethu eu dosrannu i un o'r tri gweithgaredd elusenol.

e Prydlesi gweithredu

Neilltuir y rhenti sy'n berthnasol i brydlesi gweithredu i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol dros y cyfnod pan grëir y gost ar sail linol dros gyfnod y brydles.

f Asedau anniriaethol

Diddymir cost meddalwedd cyfrifiadurol arferol drwy ei roi ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth i'r gost gael ei chreu. Mae meddalwedd a luniwyd yn benodol i QAA neu a brynwyd yn rhan o brosiect cyfalaf mwy, yn cael ei gyfalafu a'i ddiddymu dros gyfnod o bum mlynedd.

g Asedau diriaethol sefydlog a dibrisiad

Darperir dibrisiad ar asedau diriaethol sefydlog ar gyfraddau a gyfrifwyd i ddiddymu cost pob ased mewn rhandaliadau cyfartal dros gyfnod disgwylidig ei oes economaidd ddefnyddiol.

Dyma'r gyfraddau dibrisiad:

- offer cyfrifiadurol: dros dair blynedd
- dodrefn ac offer mewn swyddfeydd: dros bum mlynedd
- gwelliannau i eiddo prydesol: dros gyfnod y brydles sy'n weddill.

2 Y polisiau cyfrifyddu (parhad)

Nid yw asedau sy'n costio llai na £2,000 wedi eu cyfalafu heblaw eu bod yn rhan o brosiect cyfalaf mwy.

h Buddsoddiadau

Dangosir buddsoddiadau rhestredig yn ôl eu gwerth ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn a chofnodir unrhyw symudiadau fel enillion neu golledion heb eu gwireddu yn y datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol. Cyfrifir unrhyw warged neu ddiffyg ar fuddsoddiadau a werthwyd yn ystod y flwyddyn drwy gymharu enillion net gyda'u gwerth ar y farchnad ar ddechrau'r flwyddyn a chânt eu cofnodi fel enillion neu golledion wedi eu gwireddu yn y datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol. Mae buddsoddiadau anrhestredig wedi eu cynnwys yn ôl eu cost.

i Dyledwyr

Cydnabyddir dyledwyr masnach, dyledwyr eraill ac incwm cronedig ar swm y taliad sy'n ddyledus ar ôl unrhyw ddisgownt masnach. Pennir gwerth rhagdaliadau ar sail y swm a ragdalwyd yn net o unrhyw ddisgowntiau masnach sy'n ddyledus.

j Arian parod a chyfwerth ag arian parod

Mae arian parod wedi ei gynrychioli gan arian parod mewn llaw ac adneuron mewn sefydliadau ariannol.

k Arian tramor

Yn y lle cyntaf, cofnodir unrhyw drafodion a wnaed mewn arian tramor yn arian cyfred gweithredol yr endid busnes drwy weithredu'r gyfradd gyfnewid ar y pryd a ddyfernir ar ddyddiad y trafodion. Aildrosir asedau a rhwymedigaethau ariannol a ddangosir mewn arian tramor ar y gyfradd gyfnewid a ddyfernir ar ddyddiad y fantolen. Mae pob gwahaniaeth yn cael ei drosglwyddo i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

l Credydwyr a darpariaethau

Cydnabyddir credydwyr a darpariaethau pan fo gan yr elusen ymrwymiad cyfredol, yn gyfreithiol neu'n adeiladol, o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol; mae'n debygol y bydd angen all-lif o adnoddau er mwyn bodloni'r ymrwymiad hwnnw, a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy am swm yr ymrwymiad.

Mesurir darpariaethau yn ôl gwerth cyfredol y gwariannau y disgwylir iddynt fod yn ofynnol i fodloni'r ymrwymiad hwnnw.

Mae QAA yn darparu trefniadau gwyliau gyda chyflog i'w chyflogeion ac yn cydnabod y treuliau o fewn y cyfnod o waith a roddodd yr hawl yma i'r cyflogai gael y budd. Gwneir darpariaeth ar gyfer cost gwyliau a enillwyd ond nas cymerwyd.

m Darpariaethau ariannol sylfaenol

Mae gan QAA asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol o fath y gellir eu galw'n offerynnau ariannol sylfaenol. Cydnabyddir offerynnau ariannol sylfaenol yn y lle cyntaf ar eu gwerth trafod ac yn dilyn hynny cânt eu mesur ar eu gwerth talu.

2 Y polisiau cyfrifyddu (parhad)

n Pensiynau

Cynlluniau pensiwn hybrid

Mae QAA yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) a Threfniadau Pensiwn Prifysgol Llundain (SAUL). Yn ystod y cyfnod cyfredol, roedd y ddau gynllun yn gynlluniau pensiwn hybrid, a chan bob un ran buddion diffiniedig a rhan cyfraniadau diffiniedig. Cedwir asedau buddion diffiniedig y cynlluniau mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Cedwir asedau'r cynllun mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr. Oherwydd natur gilyddol y cynllun, ni chaiff asedau'r cynllun eu pridiannu i sefydliadau unigol, a gosodir cyfradd gyfrannu i'r cynllun cyfan. Felly, mae QAA yn agored i risgiau actiwaraidd sy'n gysylltiedig â gweithwyr cyflogedig sefydliadau eraill ac nid oes modd ynysu ei chyfran ei hun o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol y cynllun ar sail gyson a rhesymol ac felly, yn unol â gofynion adran 28 'Buddion Gweithwyr' *Safon Adrodd Ariannol 102*, caiff cyfraniadau i'r cynllun eu cyfrifo fel petai'r cynllun yn gynllun cyfraniadau diffiniedig. O ganlyniad, mae'r maint a godwyd ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am gyfnod y cyfrifon. Gan fod QAA wedi mynd i gytundebau (sef y Cynlluniau Adfer sy'n pennu faint y bydd pob cyflogwr sy'n rhan o'r cynlluniau'n ariannu diffyg cyffredinol perthnasol pob un o'r cynlluniau), mae QAA yn cydnabod atebolrwydd am y cyfraniadau sy'n daladwy o ganlyniad i'r cytundeb, i'r graddau y maent yn ymwneud â'r diffyg a'r gost sy'n deillio o hynny, yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

Barn gritigol ar y cyfrifon

Mae *Safon Adrodd Ariannol 102* yn gwahaniaethu rhwng Cynllun Grŵp a chynllun aml-gyflogwr. Mae Cynllun Grŵp yn cynnwys casgliad o endidau o dan reolaeth gyffredinol, a hynny gyda chyflogwr nodd fel arfer. Mae cynllun aml-gyflogwr yn gynllun ar gyfer endidau nad ydynt dan reolaeth gyffredinol ac sy'n cynrychioli (fel arfer) gynllun i ddiwydiant cyfan, megis y rheiny a ddarperir gan gynlluniau USS a SAUL. Mae cyfrifyddu i gynllun aml-gyflogwr, lle mae'r cyflogwr wedi mynd i gytundeb â'r cynllun sy'n pennu faint y bydd y cyflogwr hwnnw'n ariannu diffyg, yn arwain at gydabod rhwymedigaeth am y cyfraniadau sy'n daladwy o ganlyniad i'r cytundeb (i'r graddau y maent yn ymwneud â'r diffyg), a chydabyddir y gost sy'n deillio o hynny fel elw neu golled. Mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod y cynlluniau a ddarperir gan gynlluniau USS a SAUL yn cyflawni'r diffiniad o gynllun aml-gyflogwr ac felly maent wedi cydnabod gwerth teg gyda disgownt y cyfraniadau cytundebol yn unol â'r cynlluniau ariannu sy'n weithredol ar ddyddiad y fantolen.

Cynllun cyfraniadau diffiniedig

Mae QAA hefyd yn cymryd rhan mewn cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig ac mae'r meintiau a godir ar y cyfrif incwm a gwariant yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am gyfnod y cyfrifon.

3 Yr incwm o weithgareddau masnachol eraill

Dyma sefyllfa ariannol gyffredinol QAA Enterprises Limited, is-gwmni masnachol ym mherchnogaeth Iwyr QAA:

	2023	2022
	£	£
Trosiant	–	4,435
Cost gwerthiannau a chostau gweinyddol	(439)	(2,868)
Yr elw net ar gyfer y flwyddyn	(439)	1,567
Dyma oedd yr asedau a rhwymedigaethau'r is-gwmni:		
Aседau cyfredol	3,203	5,416
Rhwymedigaethau cyfredol	(1,402)	(3,176)
Cyfanswm yr asedau net	1,801	2,240

4 Yr incwm o fuddsoddiadau

Mae incwm y grŵp o fuddsoddiadau ar gyfer y flwyddyn wedi ei ddadansoddi fesul ffynhonnell isod:

	2023	2022
	£	£
Incwm difidend a llog o fuddsoddiadau a ddyfynnwyd	187,435	134,701
Llog o arian parod mewn cyfrifon banc sy'n dwyn llog	42,205	18,211
Cyfanswm yr incwm o fuddsoddiadau ar gyfer y flwyddyn	229,640	152,912

5 Yr incwm o weithgareddau elusennol

	Nodyn	2023	2022
		£	£
Ffioedd aelodaeth		3,543,207	3,152,487
Gweithgareddau rheoleiddio		3,245,971	3,258,545
Contractau gyda chyrrff cyllido addysg uwch		1,308,234	1,360,353
Darparwyr amgen sy'n cynnig addysg uwch		255,743	188,852
Contractau eraill ac incwm cysylltiedig		1,527,348	1,670,701
Cyfanswm yr incwm o weithgareddau elusennol		9,880,503	9,630,938
Dadansoddiad fesul ffynhonnell:			
Cynghorau cyllido addysg uwch y DU		1,575,626	1,348,286
Sefydliadau addysg uwch y DU		3,634,824	4,698,535
Sefydliadau addysg bellach y DU		364,248	1,580,140
Darparwyr amgen sy'n cynnig addysg uwch y DU		544,371	577,246
Eraill		1,664,905	3,465,596
		7,783,974	11,669,803
Rhyddhau incwm a ohiriwyd mewn blynyddoedd blaenorol	16	6,235,883	4,268,758
Gohirio incwm a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gyfredol	16	(4,139,354)	(6,283,833)
Y swm a gariwyd ymlaen		-	(23,790)
Cyfanswm yr incwm o weithgareddau elusennol		9,880,503	9,630,938

6 Y gwariant ar weithgareddau elusennol

	Nodyn	2023 £	2022* £
Safonau		1,925,743	1,498,936
Sicrwydd a Gwelliant		6,234,201	6,263,403
Rhyngwladol		1,782,006	1,633,610
Arweinyddiaeth		176,117	265,268
Cyfanswm y gwariant ar weithgareddau elusennol cyn costau ailstrwythuro a darpariaeth pensiynau		10,118,067	9,661,217
Darpariaeth pensiynau - cyfraniadau i adfer diffygion (wedi eu cynnwys uchod)	21	(221,658)	(79,951)
Codwyd ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol - newid mewn cyfraniadau disgwylidig i adfer diffygion yn y dyfodol		(550,019)	2,102,636
Darpariaeth pensiynau - dad-ddirwyn disgowntiau	21	110,614	11,507
Cyfanswm y gwariant ar weithgareddau elusennol		9,457,004	11,695,409

* Yn ystod 2022-23, o ganlyniad i'r newidiadau yng ngweithgareddau QAA, cyflwynwyd strategaeth newydd ar gyfer y cyfnod 2023-27. Mae'r balansau ar gyfer y flwyddyn flaenorol (2022) wedi eu hail-nodi i alinio â'r meysydd ffocws strategol newydd.

7 Dadansoddiad o'r gwariant ar weithgareddau elusennol

	Gweithgareddau elusennol				Cyfanswm y gwariant ar weithgareddau elusennol	
	Safonau	Sicrwydd a Gwelliant	Rhyngwladol	Arweinyddiaeth	2023	2022*
	£	£	£	£	£	£
Costau uniongyrchol						
Costau staffio	1,155,048	2,424,393	873,286	151,760	4,604,487	4,323,314
Costau adolygu eraill	74,243	1,003,646	260,306	24,357	1,362,552	1,578,077
Costau uniongyrchol eraill	107,025	106,281	68,490	–	281,796	252,969
Cyfanswm y costau uniongyrchol	1,336,316	3,534,320	1,202,082	176,117	6,248,835	6,154,360
Costau cefnogi						
Costau staffio	271,332	1,246,588	281,828	–	1,799,748	1,389,850
Costau mewn perthynas ag adeiladau a swyddfeydd	166,943	730,959	141,863	–	1,039,765	735,853
Technoleg gwybodaeth	53,972	413,124	63,974	–	531,070	695,440
Costau cyllid	9,551	34,434	9,949	–	53,934	21,243
Dibrisiad	23,565	59,032	14,271	–	96,868	337,175
Costau adnoddau dynol a datblygiad staff	39,600	126,063	42,478	–	208,141	160,101
Costau cefnogi eraill	2,691	12,327	3,115	–	18,133	51,558
Costau llywodraethu	21,773	77,354	22,446	–	121,573	115,637
Cyfanswm y costau cefnogi	589,427	2,699,881	579,924	–	3,869,232	3,506,857
Y gwariant ar weithgareddau elusennol cyn ystyried y ddarpariaeth pensiynau	1,925,743	6,234,201	1,782,006	176,117	10,118,067	9,661,217
Darpariaeth pensiynau - (gwarged net)/cyfraniadau net i adfer diffyg	–	–	–	–	(771,677)	2,022,685
Darpariaeth pensiynau - dad-ddirwyn disgowntiau	–	–	–	–	110,614	11,507
Cyfanswm y gwariant elusennol	–	–	–	–	9,457,004	11,695,409

* Yn ystod 2022-23, o ganlyniad i'r newidiadau yng ngweithgareddau QAA, cyflwynwyd strategaeth newydd ar gyfer y cyfnod 2023-27. Mae'r balansau ar gyfer y flwyddyn flaenorol (2022) wedi eu hail-nodi i alinio â'r meysydd ffocws strategol newydd.

8 Yr incwm net/(y gwariant net) ar gyfer y flwyddyn ariannol

	2023	2022
Nodyn	£	£
Nodir (y gwariant net)/yr incwm net ar ôl codi/(derbyn):		
Archwilwyr allanol - gwasanaethau archwilio	19,800	21,600
Archwilwyr allanol - gwasanaethau eraill	2,322	7,800
Archwilwyr mewnol - gwasanaethau archwilio	3,600	9,114
Yswiriant indemniad proffesiynol	57,574	51,179
Asedau anniriaethol sefydlog		
Amorteiddiad	48,771	51,459
Asedau diriaethol sefydlog		
Dibrisiad	159,056	270,471
Darpariaeth amhariad	(119,196)	119,196
Prydlesi gweithredu		
Tir ac adeiladau	283,419	283,821
Eraill	1,434	1,880
Costau o gyfnwid arian tramor	3,637	1,000
Cyfraniadau pensiwn gan gyflogwyr	23 947,027	847,035

9 Dadansoddiad o'r costau staff

	2023	2022
	£	£
Dyma oedd cyfanswm y costau staff:		
Cyflogau	5,004,648	4,416,167
Cyfraniadau Yswiriant Gwladol gan gyflogwyr	539,094	485,379
Cyfraniadau pensiwn taladwy	947,027	847,035
	6,490,769	5,748,581
Staff a ddarparwyd gan asiantaethau cyflogaeth	157,554	158,034
Cyfanswm y costau staff cyn ailstrwythuro ac addasiadau ar gyfer rhwymedigaethau o ran darpariaeth pensiynau	6,648,323	5,906,615
Cyfraniadau i adfer diffygion sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn (wedi eu cynnwys yn y cyfraniadau a dalwyd a nodir uchod)	(221,658)	(79,951)
Cynnydd mewn cyfraniadau disgwylidig i adfer diffygion yn y dyfodol	(550,019)	2,102,636
Cyfanswm y costau staff a godwyd ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol	5,876,646	7,929,300

9 Dadansoddiad o'r costau staff (parhad)

	2023	2022*
	Nifer	Nifer
Safonau	20	12.5
Sicrwydd a Gwelliant	46	53
Rhyngwladol	25	19.5
Arweinyddiaeth	11	9
Cyfanswm nifer cyfartalog y gweithwyr cyflogedig ar sail gyfwerth ag amser llawn	102	94
Cyfanswm nifer cyfartalog y gweithwyr cyflogedig ar sail cyfrif pennau	121	116

** Yn ystod 2022-23, o ganlyniad i'r newidiadau yng ngweithgareddau QAA, cyflwynwyd strategaeth newydd ar gyfer y cyfnod 2023-27. Mae'r balansau ar gyfer y flwyddyn flaenorol (2022) wedi eu hail-nodi i alinio â'r meysydd ffocws strategol newydd.

Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd cyfrif am daliadau diswyddo neu derfynu contract i chwe aelod o staff; cyfanswm y taliadau ar gyfer 2023 yw £126,518 [mae swm o £16,621 sydd heb ei dalu ar ddiwedd y flwyddyn] (2022: £24,141).

Dyma oedd nifer y gweithwyr cyflogedig yr oedd eu taliadau a ddiffiniwyd i bwrpasau trethi'n fwy na £60,000:

	2023	2022
	Nifer	Nifer
£140,000 - £149,999	1	–
£130,000 - £139,999	–	1
£100,000 - £109,999	–	–
£90,000 - £99,999	3	2
£80,000 - £89,999	–	2
£70,000 - £79,999	4	2
£60,000 - £69,999	4	3

Roedd yr holl weithwyr cyflogedig oedd yn ennill mwy na £60,000 yn cyfranogi yng Nghynllun Pensiwn y Prifysgolion (gwelwch nodyn 23). Dyma oedd y cyfanswm a dalwyd i'r cynllun ar gyfer y gweithwyr cyflogedig hyn:

	2023	2022
	£	£
Y cyfraniadau gan gyflogwyr	237,925	153,594

10 Y taliadau i gyfarwyddwyr a rheolwyr allweddol

Mae rheolwyr allweddol yr elusen yn cynnwys yr ymddiriedolwyr a'r uwch weithredwyr (gwelwch Adroddiad y Cyfarwyddwyr uchod).

Ni thalwyd unrhyw daliadau i'r ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn. Ad-dalwyd gwerth £2,398 o dreuliau i 11 ymddiriedolwr yn ystod y flwyddyn (2022: £2,031 i 11 ymddiriedolwr). Roedd y treuliau a dalwyd yn ymwneud yn gyfan gwbl â theithio a mân bethau.

Cyfanswm y buddion i weithwyr (gan gynnwys Cyfraniadau Pensiwn gan y Cyflogwyr a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol gan y Cyflogwyr) a dderbyniwyd gan uwch weithredwyr yr elusen a'r grŵp oedd £572,111 (2022: £432,367).

Y Prif Weithredwr yw'r gweithiwr cyflogedig sydd â'r cyflog uchaf, a derbyniodd daliadau a budd-daliadau, gan gynnwys Cyfraniadau Pensiwn a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol gan y Cyflogwr, o £194,275 (2022: £184,738) yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, prynodd QAA Yswiriant Atebolwydd Cyfarwyddwyr a Swyddogion (oedd yn cynnwys Yswiriant Indemniad i Ymddiriedolwyr).

11 Trethi

O dan ran II *Deddf Treth Gorfforaeth 2010*, nid yw'r elusen yn atebol i drethi ar ei gweithgareddau elusennol. Bydd elw'r is-gwmni anelusennol yn cael ei roi fel rhodd cymorth i'r rhiant-elusen fel arfer. Felly, yn gyffredinol, nid yw'r grŵp yn dioddef Treth Gorfforaeth ar ei weithgareddau masnachol.

12 Asedau anniriaethol sefydlog

Y Grŵp a'r Elusen

	Meddalwedd cyfrifiadurol	Cyfanswm
	£	£
Cost		
Ar 1 Awst 2022	647,664	647,664
Ychwanegiad	5,850	5,850
Ar 31 Gorffennaf 2023	653,514	653,514
Amorteiddiad		
Ar 1 Awst 2022	471,806	471,806
Y gost ar gyfer y flwyddyn	48,771	48,771
Ar 31 Gorffennaf 2023	520,577	520,577
Gwerth net ar bapur ar 31 Gorffennaf 2023	132,937	132,937
Gwerth net ar bapur ar 31 Gorffennaf 2022	175,858	175,858

13 Asedau diriaethol sefydlog

Y Grŵp a'r Elusen

	Gwelliannau i eiddo prydlesol £	Offer cyfrifiadurol £	Dodrefn ac offer eraill £	Cyfanswm £
Cost				
Ar 1 Awst 2022	1,280,210	3,836,510	546,547	5,663,267
Ychwanegiadau	–	7,762	3,883	11,645
Gwarediadau	–	(8,236)	–	(8,236)
Ar 31 Gorffennaf 2023	1,280,210	3,836,036	550,430	5,666,676
Dibrisiad				
Ar 1 Awst 2022	1,246,561	3,769,322	546,547	5,562,430
Y gost ar gyfer y flwyddyn				
\Gwarediad	126,997	31,627	432	159,056
Darpariaeth amhariad	(113,562)	(5,634)	–	(119,196)
Ar 31 Gorffennaf 2023	1,259,996	3,795,315	546,979	5,602,290
Gwerth net ar bapur ar 31 Gorffennaf 2023	20,214	40,721	3,451	64,386
Gwerth net ar bapur ar 31 Gorffennaf 2022	33,649	67,188	–	100,837

Ym marn y cyfarwyddwyr nid yw gwerth yr asedau sefydlog ar y farchnad yn gwahaniaethu'n sylweddol oddi wrth eu gwerth ar bapur.

14 Y buddsoddiadau asedau sefydlog

	Buddsoddiadau a ddyfynnwyd	Buddsoddiadau heb eu dyfynnu	Cyfanswm
	£	£	£
Delir gan y grŵp			
Ar 1 Awst 2022	5,922,837	–	5,922,837
Ychwanegiadau yn ôl eu cost	694,694	–	694,694
Gwarediadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad ar ddechrau'r flwyddyn neu eu cost os cawsent eu prynu yn ystod y flwyddyn	(7,921)	–	(7,921)
Cynnydd net yn yr arian parod a ddelir a thaliadau heb eu talu	(511,096)	–	(511,096)
Colled net ar ailbrisiu eu gwerth ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn	(82,183)	–	(82,183)
Ar 31 Gorffennaf 2023	6,016,331	–	6,016,331
Delir gan yr elusen			
Ar 1 Awst 2022	5,922,836	1	5,922,837
Ychwanegiadau yn ôl eu cost	694,694	–	694,694
Gwarediadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad ar ddechrau'r flwyddyn neu eu cost os cawsent eu prynu yn ystod y flwyddyn	(7,920)	–	(7,920)
Cynnydd net yn yr arian parod a ddelir a thaliadau heb eu talu	(511,096)	–	(511,096)
Colled net ar ailbrisiu eu gwerth ar y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn	(82,183)	–	(82,183)
Ar 31 Gorffennaf 2023	6,016,331	–	6,016,332

Mae'r buddsoddiadau a ddyfynnwyd yn cael eu hailbrisiu a'u datgan yn ôl eu gwerth ar y farchnad ar 31 Gorffennaf 2023.

Cofnodir buddsoddiadau heb eu dyfynnu yn ôl eu cost. Mae QAA yn dal un gyfran £1 arferol (100%) yn QAA Enterprises Limited, sef is-gwmni masnachol ym mherchnogaeth lwyr QAA sydd wedi ei gofrestru yng Nghymru a Lloegr o dan y rhif 07588108, ac mae ganddo ei brif swyddfa yn Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB.

14 Y buddsoddiadau asedau sefydlog (parhad)

Mae buddsoddiadau a ddyfynnwyd wedi eu cynnwys yn ôl eu gwerth ar y farchnad a'u dal fel a ganlyn:

	Y Grŵp a'r Elusen ar 31 Gorffennaf 2023		Y Grŵp a'r Elusen ar 31 Gorffennaf 2022	
	Cost	Gwerth ar y farchnad	Cost	Gwerth ar y farchnad
	£	£	£	£
Rhestrir ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig				
- yn y DU	5,888,737	6,016,325	5,201,786	5,411,731
- y tu allan i'r DU				
Arian parod a thaliadau sydd ar y gweill a ddelir yn rhan o'r portffolio buddsoddi	7	7	511,115	511,105
	5,888,744	6,016,332	5,712,890	5,922,837

15 Dyledwyr

	Y Grŵp		Yr Elusen	
	2023	2022	2023	2022
	£	£	£	£
Dyledwyr masnach	1,807,989	3,043,605	1,807,989	3,043,605
Mân ddyledwyr	3,163	3,209	3,163	3,209
Rhagdaliadau	299,705	286,743	299,705	286,743
Incwm cronedig	–	42,975	–	42,975
Yr is-gwmni	–	–	–	2,576
	2,110,857	3,376,532	2,110,857	3,379,108

Ar hyn o bryd, nid ydym yn cadw darpariaeth ar gyfer dyledion ansicr (roedd darpariaeth o'r fath o £58,481 yn 2022).

16 Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn

	Y Grŵp		Yr Elusen	
	2023	2022	2023	2022
	£	£	£	£
Credydwyr masnach	502,563	293,539	501,861	293,539
Treth a nawdd cymdeithasol	144,890	148,503	144,890	148,503
Cyfraniadau pensiwn	118,996	113,207	118,996	113,207
Credydwyr eraill	272,553	41,922	272,553	41,922
Croniadau	559,366	945,215	558,666	945,215
Incwm gohiriedig	4,211,094	6,307,623	4,211,094	6,307,623
	5,809,462	7,850,009	5,808,060	7,850,009
Dyma oedd y symudiad yn yr incwm gohiriedig:				
Ar ddechrau'r flwyddyn	6,307,623	4,292,548	6,307,623	4,292,548
Rhyddhau incwm a ohiriwyd mewn blynyddoedd blaenorol	(6,235,883)	(4,268,758)	(6,235,883)	(4,268,758)
Yr incwm gohiriedig a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn gyfredol	4,139,354	6,283,833	4,139,354	6,283,833
Ar ddiwedd y flwyddyn	4,211,094	6,307,623	4,211,094	6,307,623

Mae'r incwm gohiriedig yn ymwneud ag ymrwymïadau cytundebol na fyddent wedi eu darparu tan y flwyddyn nesaf. Felly, nid yw'n briodol cydnabod yr incwm ar y cam yma.

17 Trefniadau ar gyfer prydlesi gweithredu

Dyma oedd cyfanswm y taliadau prydles isaf yn y dyfodol o dan brydlesi gweithredu na ellir eu diddymu:

	Y Grŵp a'r Elusen	
	2023	2022
	£	£
Tir ac adeiladau		
O fewn blwyddyn	62,595	256,195
Rhwng dwy a phum mlynedd	36,524	99,109
	<hr/>	<hr/>
	99,119	355,304
	<hr/>	<hr/>

18 Dadansoddiad o'r ymrwymadau cyfalaf

	Y Grŵp a'r Elusen	
	2023	2022
	£	£
Contractiwyd ar ei gyfer ond ni chafodd ei ddarparu	25,410	–
Cafodd ei awdurdodi ond ni chontractiwyd ar ei gyfer eto	–	–
	<hr/>	<hr/>
	25,410	–
	<hr/>	<hr/>

19 Trafodion gyda phartïon cysylltiedig

Oherwydd natur gweithrediadau QAA a chyfansoddiad Bwrdd Cyfarwyddwyr QAA, cynhelir trafodion gyda sefydliadau y gallai aelod o'r Bwrdd gael budd ohonynt. Cynhelir yr holl drafodion sy'n ymwneud â sefydliadau y gallai aelod o'r Bwrdd gael budd ohonynt o hyd braich ac yn unol â rheoliadau ariannol a threfniadau caffael arferol QAA. Ni phennwyd unrhyw drafodion y dylid eu datgelu o dan *Safon Adrodd Ariannol 8: Datgelu Partïon Cysylltiedig*.

Yn y flwyddyn, diddymwyd y balans oedd yn ddyledus i'r elusen gan QAA Enterprises Limited, sef is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr yr elusen (2022: £2,576), fel y gwelwch yn y nodyn 'Dyledwyr' ar dudalen 51.

Mae QAA yn aelod o *Scottish Credit and Qualifications Framework Partnership*, sef cwmni cyfyngedig drwy warant sydd wedi ei gofrestru yn yr Alban o dan y rhif SC311573.

20 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau

Dyma'r darpariaethau a wnaed:

Tâl gwyliau

Mae *Safon Adrodd Ariannol 102* yn gofyn bod buddion tymor byr i weithwyr yn dod o'r cyfrif elw a cholled wrth i wasanaeth y gweithwyr cyflogedig gael ei dderbyn. Mae'r ddarpariaeth am y tâl gwyliau a enillwyd ond nas cymerwyd cyn diwedd y flwyddyn.

Dyma'r symudiad yn y darpariaethau yn ystod y flwyddyn:

	Tâl gwyliau £	Cyfanswm £
Ar 1 Awst 2022	147,525	147,525
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	(26,456)	(26,456)
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	—	—
Ar 31 Gorffennaf 2023	121,069	121,069

Adfer adeiladau

Pwrpas y ddarpariaeth ariannol ar gyfer *Adfer adeiladau* yw talu cost adfer ein hadeiladau yng Nghaerloyw a Glasgow i'w cyflwr gwreiddiol ar ddiwedd tymor eu prydles berthnasol.

	Adfer adeiladau £	Cyfanswm £
Ar 1 Awst 2022	—	—
Darparwyd yn ystod y flwyddyn	300,000	300,000
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	—	—
Ar 31 Gorffennaf 2023	300,000	300,000

21 Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau pensiynau

Dyma gyfanswm y gost pensiynau a godwyd ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol:

	Y Grŵp a'r Elusen	
	2023	2022
	£	£
Cyfraniadau gan gyflogwyr sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn	947,027	847,035
Cyfraniadau i adfer diffygion sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn (wedi eu cynnwys yn y cyfraniadau gan gyflogwyr uchod)	(221,658)	(79,951)
Newid mewn cyfraniadau disgwylidig i adfer diffygion yn y dyfodol	(550,019)	2,102,636
	<hr/>	
Cyfanswm y gost pensiynau a godwyd ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol	175,350	2,869,720
	<hr/>	

Dyma'r symudiad yn y ddarpariaeth:

	Y Grŵp a'r Elusen	
	2023	2022
	£	£
Ar 1 Awst	3,341,824	1,307,632
Codwyd ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol - cyfraniadau i adfer diffygion sy'n daladwy yn ystod y flwyddyn	(221,658)	(79,951)
Codwyd ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol - newid mewn cyfraniadau disgwylidig i adfer diffygion yn y dyfodol	(550,019)	2,102,636
Dad-ddirwyn disgowntiau	110,614	11,507
	<hr/>	
Ar ddiwedd y flwyddyn	2,680,761	3,341,824
	<hr/>	

22 Dadansoddiad o'r cronfeydd elusennol

Dadansoddiad o symudiadau mewn cronfeydd anghyfyngedig

	Y cronfeydd ar 1 Awst 2022	Adnoddau sy'n dod i mewn	Adnoddau a wariwyd	Trosglwyddiadau	Enillion a cholledion	Y cronfeydd ar 31 Gorffennaf 2023
	£	£	£	£	£	£
Cronfeydd dynodedig:						
Arloesi a Datblygu	343,694	–	(91,973)	140,000	–	391,721
Adfer adeiladau	459,000	–	(300,000)	(159,000)	–	–
Cyfanswm y cronfeydd dynodedig	802,694	–	(391,973)	(19,000)	–	391,721
Cronfa gyffredinol	1,730,140	10,110,143	(9,078,235)	19,000	(82,183)	2,698,865
Cyfanswm y cronfeydd anghyfyngedig	2,532,834	10,110,143	(9,470,208)	–	(82,183)	3,090,586

	Y cronfeydd ar 1 Awst 2021	Adnoddau sy'n dod i mewn	Adnoddau a wariwyd	Trosglwyddiadau	Enillion a cholledion	Y cronfeydd ar 31 Gorffennaf 2022
	£	£	£	£	£	£
Cronfeydd dynodedig:						
Arloesi a Datblygu	524,694	–	(181,000)	–	–	343,694
Adfer adeiladau	459,000	–	–	–	–	459,000
Ailstrwythuro						
Cyfanswm y cronfeydd dynodedig	983,694	–	(181,000)	–	–	802,694
Cronfa gyffredinol	3,751,807	9,788,285	(11,525,199)	–	(284,753)	1,730,140
Cyfanswm y cronfeydd anghyfyngedig	4,735,501	9,788,285	(11,706,199)	–	(284,753)	2,532,834

Mae'r gronfa ddynodedig ar gyfer *Arloesi a Datblygu* wedi ei chlustnodi ar gyfer "arloesi mewn cynhyrchion a gwasanaethau er budd addysg uwch y DU yn y tymor hir".

22 Dadansoddiad o'r cronfeydd elusennol (parhad)

Dadansoddiad o asedau net y grŵp fesul cronfa

	Cronfa gyffredinol £	Cronfeydd dynodedig £	Y cyfanswm ar gyfer 2023 £
Asedau diriaethol sefydlog	64,386	–	64,386
Asedau anniriaethol sefydlog	132,937	–	132,937
Buddsoddiadau asedau sefydlog	6,016,332	–	6,016,332
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	3,285,646	391,721	3,677,367
Rhwymedigaethau cyfredol net eraill	(3,698,605)	–	(3,698,605)
Darpariaethau	(3,101,831)	–	(3,101,831)
Cyfanswm yr asedau net ar 31 Gorffennaf 2023	2,698,865	391,721	3,090,586

	Cronfa gyffredinol £	Cronfeydd dynodedig £	Y cyfanswm ar gyfer 2022 £
Asedau diriaethol sefydlog	100,387	–	100,837
Asedau anniriaethol sefydlog	175,858	–	175,858
Buddsoddiadau asedau sefydlog	5,463,837	459,000	5,922,837
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	3,952,434	343,694	4,296,128
Rhwymedigaethau cyfredol net eraill	(4,473,477)	–	(4,473,477)
Darpariaethau	(3,489,349)	–	(3,489,349)
Cyfanswm yr asedau net ar 31 Gorffennaf 2022	1,730,140	802,694	2,532,834

23 Pensiynau (cynlluniau buddion diffiniedig)

Mae QAA yn cymryd rhan mewn dau gynllun pensiwn buddion diffiniedig. Dyma'r cyfraniadau pensiwn oedd yn daladwy gan y cyflogwr:

	Y Grŵp a'r Elusen	
	2023	2022
	£	£
Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS)	734,969	698,302
Trefniadau Pensiwn Prifysgol Llundain (SAUL)	212,058	148,733
	947,027	847,035
Cyfraniadau gan gyflogwyr oedd heb eu talu ar ddyddiad y fantolen (wedi eu cynnwys uchod)	116,068	110,899

Yn ychwanegol at yr adran Cyflog Terfynol yng nghynllun USS ar gyfer aelodau cyfredol, bydd y gweithwyr cyflogedig sy'n ymuno â'r Cynllun ar ôl 30 Medi 2011 yn ymuno â'r adran Buddion Gyrfa-gyfan wedi eu Hailbrasio [Career Revalued Benefits] (yn atebol i nifer o reolau trosiannol). O 1 Ebrill 2016, symudwyd yr holl aelodau o gynllun USS i'r adran Adeiladu Incwm Ymddeol [Retirement Income Builder].

Yn yr un modd, bydd y gweithwyr cyflogedig sy'n ymuno â chynllun SAUL ar ôl 30 Mehefin 2012 yn ymuno â'r adran Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi eu Hailbrasio (CARE) [Career Average Revalued Earnings] o'r cynllun hwnnw (yn atebol i nifer o reolau trosiannol). Ar 1 Ebrill 2016, symudwyd yr holl aelodau yn yr adran Cyflog Terfynol i'r adran CARE.

Dyma gyfraddau'r cyfraniadau fel canran o'r cyflogau pensiynadwy:

		Cyflogwr	Gweithiwr cyflogedig
Cynllun pensiwn USS - adran Adeiladu Incwm Ymddeol	O 1 Ebrill 2022 hyd 31 Mawrth 2024	21.60%	9.80%
	O 1 Ebrill 2024 hyd 30 Ebrill 2038	21.40%	9.80%
Cynllun pensiwn SAUL - adran Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi eu Hailbrasio	O 1 Ebrill 2022 hyd 31 Rhagfyr 2022	19.00%	6.00%
	O 1 Ionawr 2023 ymlaen	21.00%	6.00%

o Cynllun Pensiwn y Prifysgolion

Dyddiad y prisiad actiwaraid cyflawn diweddaraf o'r adran Adeiladu Incwm Ymddeol oedd 31 Mawrth 2020 (dyddiad y prisiad), a gynhaliwyd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau.

23 Pensiynau (cynlluniau buddion diffiniedig) (parhad)

Gan na all QAA ynysu ei chyfran ei hun o asedau a rhwymedigaethau'r adran Adeiladu Incwm Ymddeol (buddion diffiniedig) yng nghynllun USS, mae'r datgeliadau canlynol yn adlewyrchu'r rhai sy'n berthnasol i'r asedau a'r rhwymedigaethau hynny yn eu cyfanrwydd.

Prisiad 2020 oedd y chweched prisiad o'r cynllun dan y drefn gyllido benodol i'r cynllun a gyflwynwyd gan *Ddeddf Pensiynau 2004*, sy'n gofyn i gynlluniau gael asedau digonol a phriodol i dalu eu darpariaethau technegol. Ar ddyddiad y prisiad, £66.5 biliwn oedd gwerth asedau'r cynllun a £80.6 biliwn oedd gwerth darpariaethau technegol y cynllun, gan ddangos £14.1 biliwn o ddiffyg a chymhareb gyllido o 83%.

Mae'r prif dybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd ym mhrisiad 2020 wedi eu disgrifio isod. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn y Datganiad o Egwyddorion Cyllido.

Tybiaeth CPI	Y cyfraddau sy'n ddibynnol ar dymor yn unol â'r gwahaniaeth rhwng y cromliniau arenill Llog Sefydlog a'r rhai sy'n gysylltiedig â mynegai, wedi tynnu: 1.1% y flwyddyn hyd 2030, sy'n gostwng yn llinol o 0.1% y flwyddyn i wahaniaeth dymor hir o 0.1% y flwyddyn o 2040 ymlaen.
Cynyddiadau mewn pensiynau (ar sail terfyn isaf o 0%)	Tybiaeth CPI a 0.05% ychwanegol
Cyfradd y disgownt (cyfraddau'r dyfodol)	Y gromlin arenill Llog Sefydlog sy'n gysylltiedig â stociau'r llywodraeth ac, yn ychwanegol: O dan oedran ymddeol: 2.75% y flwyddyn Dros oedran ymddeol: 1.00% y flwyddyn

Mae'r brif dybiaeth ddemograffig a ddefnyddir yn ymwneud â thybiaethau ynghylch marwolaeth. Seiliwyd y tybiaethau hyn ar ddadansoddiad o brofiad y cynllun a wnaed yn rhan o brisiad actiwaraid 2020. Dyma'r tybiaethau ynghylch marwolaeth a ddefnyddir yn y ffigyrau yma:

Tabl sail marwolaeth

Prisiad 2020

101% o S2PMA 'ysgafn' ar gyfer gwrywod a 95% o S3PFA ar gyfer benywod.

Gwelliannau yn y dyfodol o ran marwolaeth: CMI_2019 gyda pharamedr llyfnhau o 7.5, ychwanegiad cychwynnol o 0.5% y flwyddyn a chyfradd gwelliant tymor hir o 1.8% y flwyddyn ar gyfer gwrywod ac 1.6% y flwyddyn ar gyfer benywod.

Dyma'r disgwyliadau oes cyfredol wrth ymddeol yn 65 oed:

	2023	2022
Gwrywod sy'n 65 oed ar hyn o bryd	24.0	23.9
Benywod sy'n 65 oed ar hyn o bryd	25.6	25.5
Gwrywod sy'n 45 oed ar hyn o bryd	26.0	25.9
Benywod sy'n 45 oed ar hyn o bryd	27.4	27.3

23 Pensiynau (cynlluniau buddion diffiniedig) (parhad)

Yn rhan o brisiad 2020, cyflwynwyd cynllun adfer diffyg newydd sy'n gofyn am dalu 6.2% o'r cyflogau dros y cyfnod o 1 Ebrill 2022 hyd 31 Mawrth 2024 a phryd hynny bydd y gyfradd yn cynyddu i 6.3%. Mae'r rhwymedigaeth i adfer diffygion ar gyfer 2023 yn adlewyrchu'r cynllun hwn. Cynhyrchwyd y ffigurau rhwymedigaeth gan ddefnyddio'r tybiaethau canlynol:

	2023	2022
Cyfradd y disgownt	5.50%	3.31%
Twf mewn cyflogau pensiynadwy	4.00%	4.00%

p Trefniadau Pensiwn Prifysgol Llundain

Mae'r QAA yn cymryd rhan yn Nhrefniadau Pensiwn Prifysgol Llundain [Superannuation Arrangements for the University of London (SAUL)] sy'n gynllun buddion diffiniedig canolog yn y Deyrnas Unedig a gontractiwyd allan o Ail Bensiwn y Wladwriaeth (cyn mis Ebrill 2016).

Mae cynllun SAUL yn gynllun pensiwn a reolir yn annibynnol ar gyfer y staff anacademaidd mewn mwy na 50 o golegau a sefydliadau sydd â chysylltiad ag addysg uwch.

Ar hyn o bryd, mae buddion pensiwn a gronnir yng nghynllun SAUL yn adeiladu ar sail Enillion Cyfartalog Gyrfa wedi eu Hailbrisio (CARE).

Ni ddisgwylir y bydd QAA yn atebol i gynllun SAUL am unrhyw ymrwymadau o dan reolau cynllun SAUL sydd gan gyflogwyr eraill sy'n rhan o'r cynllun ar hyn o bryd, ond os bydd unrhyw gyflogwyr sy'n rhan o gynllun SAUL yn mynd yn fethdalwyr, gellir rhannu maint unrhyw ddiffyg yng nghyllid pensiynau'r cyflogwr hwnnw (os nad oes modd cael y cyllid hwnnw yn ôl drwy ryw ddull arall) rhwng y cyflogwyr eraill sy'n rhan o'r cynllun a'i adlewyrchu yn y prisiad actiwaraid nesaf.

q Polisi cyllido

Amcan cyllido statudol cynllun SAUL yw cael asedau sy'n ddigonol ac yn briodol i dalu'r costau a grëir gan yr Ymddiriedolwr wrth dalu buddion cynllun SAUL wrth iddynt ddod yn ddyledus (y 'Darpariaethau Technegol'). Mae'r Ymddiriedolwr yn mabwysiadu tybiaethau sydd, o'u cymryd yn gyfan, wedi eu bwriadu i fod yn ddigon gochelgar i sicrhau bod y pensiynau a'r buddion sy'n cael eu talu'n barod yn gallu parhau i gael eu talu ac i sicrhau bod modd talu'r ymrwymadau sy'n codi o hawliau pensiwn cronrus yr aelodau.

Mae'r tybiaethau ynghylch y Darpariaethau Technegol yn cynnwys digon o elw i ganiatáu ar gyfer y posibilrwydd y gallai pethau droi allan yn waeth na'r disgwyl. Fodd bynnag, nid yw'r dull cyllido a'r tybiaethau'n diddymu'r risg yn gyfan gwbl y gallai'r Darpariaethau Technegol fod yn annigonol i ddarparu buddion yn y dyfodol.

Cynhelir prisiad actiwaraid ffurfiol o gynllun SAUL bob tair blynedd gan actiwari annibynnol sydd â chymhwyster proffesiynol. Dyddiad gweithredu'r prisiad actiwaraid diwethaf oedd 31 Mawrth 2020. Cynhelir adolygiadau anffurfiol o sefyllfa cynllun SAUL rhwng y prisiadau ffurfiol, i adlewyrchu newidiadau yn amodau'r farchnad, gwybodaeth am lif arian a chroniadau buddion newydd.

Cytunwyd ar yr egwyddorion cyllido ym mis Mehefin 2021, a bwriedir adolygu'r egwyddorion yn rhan o'r prisiad actiwaraid ffurfiol nesaf o gynllun SAUL yn 2023.

Yn y prisiad ar 31 Mawrth 2020, roedd cynllun SAUL yn dangos cymhareb gyllido o 94% ar sail ei Ddarpariaethau Technegol. Ond, roedd symudiadau'r farchnad ar ôl dyddiad y prisiad yn bositif, a chytunodd yr Ymddiriedolwr a'r Cyflogwyr i ganiatáu monitro'r profiad ar ôl y prisiad hyd 30 Ebrill 2021. Ar y dyddiad hwnnw, roedd gwarged yng nghynllun SAUL ar sail ei Ddarpariaethau Technegol, felly nid oedd angen unrhyw gyfraniadau i adfer diffygion.

23 Pensiynau (cynlluniau buddion diffiniedig) (parhad)

Fodd bynnag, mae'r Ymddiriedolwr a'r Cyflogwyr wedi cytuno y bydd y cyfraniadau parhaus gan y Cyflogwyr yn parhau i gael eu talu ar gyfradd o 16% o gyflogau CARE i gyrraedd 19% o gyflogau CARE o 1 Ebrill 2022 ymlaen a 21% o gyflogau CARE o 1 Ionawr 2023 ymlaen.

Mae'r prisiad actiwaraid yn ymwneud â chynllun SAUL yn ei gyfanrwydd, ac nid yw'n priodoli unrhyw warged neu ddiffyg i gyflogwyr unigol. O'u cymryd yn gyfan, gwerth yr asedau ar y farchnad sydd yng nghynllun SAUL oedd £3,612 miliwn ar 31 Mawrth 2020, sy'n cynrychioli 94% o'r rhwymedigaethau. Gwerth yr asedau ar y farchnad sydd yng nghynllun SAUL oedd £4,369 miliwn ar 30 Ebrill 2021, sy'n cynrychioli 109% o'r rhwymedigaethau wedi eu hamcangyfrif.

Nid oes modd ynysu cyfran pob cyflogwr unigol o asedau a rhwymedigaethau gwaelodol cynllun SAUL. Caiff cyfraniadau QAA i gynllun SAUL eu cyfrifo fel petai'r cynllun yn gynllun cyfraniadau diffiniedig. Mae'r costau pensiwn wedi eu seilio ar y symiau a dalwyd yn wirioneddol yn unol â pharagraff 28.11 *Safon Adrodd Ariannol 102*.

Er bod diffyg yn y Darpariaethau Technegol ar 31 Mawrth 2020, gan ganiatáu ar gyfer monitro'r profiad ar ôl y prisiad hyd 30 Ebrill 2021, roedd gwarged yn Narpariaethau Technegol cynllun SAUL. Felly, ar ôl y prisiad yn 2021, nid oedd angen unrhyw gyfraniadau i adfer diffygion, ac nid oes unrhyw rwymedigaeth o ran buddion diffiniedig (h.y. gwerth cyfredol unrhyw gyfraniadau i adfer diffygion sy'n ddyledus i gynllun SAUL) sydd i dderbyn cydnabyddiaeth gan QAA.

Mae QAA yn cymryd rhan mewn un cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Cedwir asedau'r cynllun ar wahân i asedau'r elusen mewn cronfa a weinyddir yn annibynnol. Mae cost y pensiynau a godir yn cynrychioli cyfraniadau sy'n daladwy gan yr elusen i'r gronfa a dyma oeddent:

	Y Grŵp a'r Elusen	
	2023	2022
	£	£
The People's Pension	15,967	11,473
Cyfraniadau gan gyflogwyr oedd heb eu talu ar ddyddiad y fantolen	2,929	2,308

24 Cysoni incwm net/(gwariant net) gyda llif arian parod net o weithgareddau gweithredu

	Y Grŵp		Yr Elusen	
	2023	2022	2023	2022
	£	£	£	£
Yr incwm net/(y gwariant net) ar gyfer y flwyddyn	857,753	(2,202,667)	858,191	(2,204,233)
Addasiadau ar gyfer:				
Maint y dibrisiad	207,828	217,979	207,828	217,979
Darpariaeth amhariad	(110,960)	119,196	(110,960)	119,196
Colledion ar fuddsoddiadau	82,183	284,753	82,183	284,753
Incwm o fuddsoddiadau	(229,640)	(152,912)	(229,640)	(152,912)
Gostyngiad/(cynnydd) mewn dyledwyr	1,265,674	(1,497,787)	1,268,251	(1,445,589)
(Gostyngiad)/cynnydd mewn credydwyr	(2,040,547)	2,460,978	(2,041,349)	2,460,978
(Gostyngiad)/cynnydd mewn darpariaethau	(687,518)	2,026,026	(687,518)	2,026,026
Yr arian parod net a ddarparwyd gan y gweithgareddau gweithredu	(655,227)	1,255,566	(653,014)	1,306,198

25 Dadansoddiad o arian parod a chyfwerth ag arian parod

	Y Grŵp		Yr Elusen	
	2023	2022	2023	2022
	£	£	£	£
Arian parod yn y banc ac mewn llaw - asedau hylifol	3,677,367	4,296,128	3,674,164	4,290,712
Arian parod yn y banc - buddsoddiadau asedau sefydlog	7	511,104	7	511,104
Arian parod yn y banc ac mewn llaw ar ddiwedd y flwyddyn	3,677,374	4,807,232	3,674,171	4,801,816

26 Cysoni'r ddyled net

	Ar 1 Awst 2022	Llif arian	Ar 31 Gorffennaf 2023
	£	£	£
Arian parod	4,296,128	(618,761)	3,677,367
Cyferwerth ag arian parod	511,104	(511,097)	7
Cyfanswm	4,807,232	(1,129,858)	3,677,374

Rhestr termau

Datganiad o Arferion Cymeradwy i Elusennau	<i>Datganiad o Arferion Cymeradwy: Cyfrifon ac Adroddiadau gan Elusennau</i> sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r <i>Safon Adrodd Ariannol</i> sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (yn weithredol o 1 Ionawr 2015)
S2P	Ail Bensiwn y Wladwriaeth [State Second Pension]
Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102)	Sef y <i>Safon Adrodd Ariannol</i> sy'n gymwys yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon
SAUL	Trefniadau Pensiwn Prifysgol Llundain [Superannuation Arrangements for the University of London]
SOFA	Datganiad o weithgareddau ariannol [Statement of financial activity]
USS	Cynllun Pensiwn y Prifysgolion [Universities Superannuation Scheme]

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2024
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

Ffôn: 01452 557050
Gwefan: www.qaa.ac.uk